Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 17eg Rhagfyr, 2024 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom<br>Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu<br>https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sioned Mai Jones<br>01286 679665 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |
| Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
| Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid |
| June Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 TACHWEDD | | | 3 - 13 |
| 6 | STRATEGAETH LLESIANT STAFF | Cyng. Llio E. Owen | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol - Gwasanaethau Corfforaethol | 14 - 46 |
| 7 | ADRODDIAD CWYNION A GWELLA GWASANAETH CHWARTER 1-2 2024/25 | Cyng. Llio E. Owen | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 47 - 67 |

**Y CABINET  DYDD MAWRTH, 26 TACHWEDD 2024**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Paul Rowlinson a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eitem 6: Lowri Wyn Morton (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, Gwasanaethau Corfforaethol).
Eitem 7: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo).
Eitem 8: Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned).
Eitem 9: Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol).
Eitem 10: Aled Davies (Pennaeth Adan Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a’r Swyddogion i’r cyfarfod gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ddiogel yn dilyn tywydd gwael diweddar.

Tynnwyd sylw at ddiwrnod ymgyrch fyd eang y Rhuban Gwyn (25 Tachwedd), sydd yn gweithio i stopio trais yn erbyn merched a genethod. Cadarnhawyd y bu i Gyngor Gwynedd dderbyn achrediad ym mis Mai 2022, yn gydnabyddiaeth o ymdrechion oddi fewn y sefydliad i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2024 fel rhai cywir.

## 6. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson.

**PENDERFYNIAD**

**Argymell i'r Cyngor Llawn, mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26:**

- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu dim disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (hy. Dim newid).**
- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu dim disgownt ac yn codi premiwm o 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Bod Cyngor Gwynedd, yn caniatáu dim disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn codi premiwm o 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gadarnhau bod angen gwneud penderfyniad ar lefelau premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac anheddau gwag yn flynyddol mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Atgoffwyd bod y lefelau Premiwm ar hyn o bryd yn 150% ar gyfer ail gartrefi ac yn 100% ar gyfer anheddau sy'n wag ers 6 mis neu fwy (hirdymor). Eglurwyd bod lefelau'r premiwm yn cynyddu'n awtomatig os oes cynnydd i osodiad Treth Cyngor.

Cynigwyd argymell i'r lefelau premiwm ar gyfer ail gartrefi ac anheddau gwag barhau ar yr un lefelau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Eglurwyd yr angen i ddilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gadarnhau bod canllawiau newydd wedi cael eu cyflwyno ers i lefelau'r premiwm gael ei benderfynu gan y Cyngor Llawn y llynedd. Manylwyd bod y canllawiau diweddaraf yn nodi bod gan Awdurdodau Lleol bŵer i gynyddu premiwm anheddau gwag er mwyn annog perchnogion i ddod a'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy sydd ar gael a gwneud cymunedau yn fwy cynaliadwy.

Adroddwyd bod y canllawiau diweddaraf a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi dylid ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar lefelau premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi ac anheddau gwag. Manylwyd bod y rhain yn cynnwys:

- Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn yr ardal leol.
- Lleoliadau'r adeiladau
- Effaith ar brisiau tai a fforddiadwyedd
- Yr economi leol
- Diwydiant twristiaeth
- Gwasanaethau cyhoeddus

- Y gymuned leol
- Yr iaith Gymraeg

Adroddwyd bod y Cyngor yn ystyried nifer o fesurau eraill er mwyn sicrhau bod mwy o dai ar gael i drigolion a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Cadarnhawyd y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag am y tro cyntaf, ac hefyd cyn i'r premiwm cael ei godi dros 100%. Sicrhawyd bod y Cyngor wedi gweithredu ar y gofyniad hwn gan atgoffa y bu i'r ymgynghoriad diweddaraf gael ei gynnal wrth godi premiwm Treth Cyngor ail gartrefi i 150%, nol yn 2022. Nodwyd bod y canllawiau diweddaraf yn nodi nad oes angen cynnal ymgynghoriad pellach os yw'r Cyngor yn dymuno cynyddu lefelau'r premiwm eto, ond byddai angen cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod prosesau manwl wedi cael eu dilyn er mwyn cyfiawnhau cyrraedd y penderfyniad hwnnw.

Ymhelaethwyd bod gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth y Cyngor wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil ar effaith premiwm Treth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag yn ddiweddar gan nodi nad oes newid mawr i'r sefyllfa. Gellir casglu o ganlyniadau'r gwaith nad oes angen addasu lefelau'r premiwm eleni. Adroddwyd nad oedd canlyniadau'r ymchwiliad yn dangos bod lefelau cyfredol y premiwm yn anaddas. Ymddangoswyd bod y tuedd hanesyddol o brif anheddle yn cael eu trosi yn ail gartrefi wedi newid o ganlyniad i'r premiwm, gan gadarnhau bod mwy o ail gartrefi yn cael eu trosi yn ôl i fod yn brif gartrefle. Awgrymwyd bod y polisi premiwm Treth Cyngor yn gweithio.

Pwysleisiwyd bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 hefyd yn arf ddefnyddiol i'r Cyngor gan fod angen cais cynllunio er mwyn trosi prif anheddle yn ail gartref neu lety gwyliau tymor byr, ers iddo ddod yn weithredol ym mis Medi 2024. Eglurwyd bod modd i'r ceisiadau cynllunio hyn cael eu gwrthod os yw'r adeilad mewn ardal ble mae trigolion yn profi anawsterau i ddod o hyd i gartref oherwydd pwysau ail gartrefi ar y gymuned. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o fonitro'r Cyfarwyddyd gan sicrhau'r angen iddo fod yn weithredol am fwy o amser cyn asesu ei effaith yn llawn.

Tynnwyd sylw bod Llywodraeth Cymru wedi ehangu trothwyon gosod o fewn Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, er mwyn caniatáu i lety hunan-ddarpar dalu treth annomestig yn hytrach na Threth Cyngor, os nad yw'n cyrraedd trothwyon diffiniad y Gorchymyn.. Eglurwyd bod angen i'r eiddo talu Premiwm ail gartref yn ogystal â Threth Cyngor os nad yw'n cyfarch trothwyon perthnasol. Cadarnhawyd bod gan y Cyngor bŵer dewisol i beidio codi'r premiwm mewn sefyllfaoedd o'r fath gan nodi bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ddefnyddio'r pwerau hyn yn y dyfodol, gan ategu'r angen i ddatblygu polisi clir o'r eithriadau perthnasol. Ymhelaethwyd bod y mathau perthnasol o ddatblygiadau yn cynnwys ysguboriau wedi eu trosi yn llety gwyliau, anecsau, carafanau a chabanau gwyliau.

Eglurwyd bod canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi bod modd pennu lefel premiwm addasedig ar gyfer aneddleoedd sydd yn wag yn am gyfnodau hir. Cadarnhawyd bod hyn yn rhoi caniatâd i Awdurdodau Lleol gynyddu lefelau premiwm Treth Cyngor cynyddol ar aneddleoedd gwag wrth iddynt fod yn wag am gyfnodau cynyddol o amser. Adroddwyd bod rhai Awdurdodau Lleol yn cynyddu lefelau'r

premiwm yn ôl y trefniant hwn a nodwyd bydd hyn yn cael ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw Cynllun 3E y Cynllun Gweithredu Tai sydd yn manylu ar eithriadau Treth Cyngor ar dai gwag, mewn sefyllfaoedd pan mae trigolion yn prynu tai ond nad oes modd iddynt fyw ynddynt nes mae gwaith wedi cael ei gwblhau.
- Cadarnhawyd bod bwriad gwneud ymchwil pellach i mewn i effaith y premiwm ar y stoc dai yng Ngwynedd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r Cyngor wrth geisio penderfynu ar lefelau premiwm Treth Cyngor yn flynyddol.
    - Mewn ymateb i ymholiad ar gapasiti ac adnoddau i gasglu'r data angenrheidiol, cydnabuwyd nad yw'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth wedi cael ei leoli o fewn yr Adran Gyllid ond mae swyddogion wedi sicrhau eu brwdfrydedd i barhau i gasglu'r data hyn i'r dyfodol.
- Gofynnwyd a oes amserlen wedi cael ei gysidro er mwyn ystyried codi lefelau premiwm cynyddol ar anheddau sydd yn hir am gyfnodau estynedig.
    - Mewn ymateb, cadarnhawyd nad oes amserlen wedi cael ei bennu ar hyn o bryd ond pwysleisiwyd yr angen i ymgysylltu gydag Awdurdodau eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u trefniadau a'r effaith mae'n ei gael i sicrhau bod anheddau gwag yn cael defnydd unwaith eto.
    - Sicrhawyd bod cynnal y gwaith ymchwil hwn yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan gadarnhau bydd adnoddau yn cael ei ryddhau i'w gwblhau.
- Eglurwyd bod posibilrwydd o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn y gwaith ymchwil angenrheidiol hwn ar lefelau premiwm cynyddol i anheddau gwag. Cadarnhawyd bod rhai Awdurdodau yn cynyddu'r lefel premiwm i uchafswm o 300% ar gyfer eiddo sydd yn wag am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy a byddai cynnal ymgynghoriad yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod trefniant o'r fath yn addas i'r ardal hon.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gadarnhau bod argyfwng tai yn parhau yng Ngwynedd ac yn genedlaethol.

Ymfalchïwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod yng Nghymru sydd wedi lleihau niferoedd digartrefedd a chostau llety argyfwng gwely a brecwast eleni. Adroddwyd bod hyn yn cadarnhau polisïau a gweithdrefnau cadarn yr Adran. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi cynnal 'Wythnos Ymwybyddiaeth Ddigartrefedd' yn ddiweddar er mwyn addysgu a thynnu sylw am y pwnc hwn, gan nodi bod yr ymateb i'r ymgyrch wedi bod yn gadarnhaol.

Mynegwyd balchder bod Dôl Sadler, safle unedau llety gyda chefnogaeth i unigolion digartref, lleoliad cyntaf o gynllun ehangach yng Ngwynedd, wedi cyrraedd rhestr fer

gwobr 'Best Supported Housing Development: Rural/Suburban' gan Inside Housing yn ddiweddar. Roedd cannoedd o enwebiadau wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y wobr ac roedd yr Adran yn falch iawn o gyrraedd y rhestr fer.

Ymhelaethwyd bod prosiectau eraill ar y gweill i fynd i'r afael a'r argyfwng digartrefedd, megis 137 Stryd Fawr, Bangor. Cadarnhawyd bod y prosiect hwn yn esiampl dda o'r gefnogaeth sydd ar gael i unrhyw un sydd yn profi digartrefedd a gobeithir cael mwy o leoliadau tebyg i'r dyfodol.

Cadarnhawyd bod dros 317 o dai cymdeithasol bellach wedi cael eu hadeiladu ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai presennol. Ymhelaethwyd bod hyn wedi bod yn gymorth i gartrefu 840 o drigolion Gwynedd. Adroddwyd bod dros 220 o dai ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw bod y ffigyrau o ddarparu gwasanaeth Teleofal wedi gostwng yn ddiweddar a gofynnwyd a oes cyfle yn codi i gydweithio'n fwy effeithiol gyda'r tîm sydd yn darparu'r gwasanaeth.
    - Mewn ymateb i'r sylw, cydnabuwyd bod y ffigyrau hyn wedi gostwng yn ddiweddar oherwydd bod swyddogion yn datblygu fersiwn digidol o'r gwasanaeth yn hytrach nag analog. Oherwydd hyn, nodwyd bod angen iddynt ymweld â phob tŷ sydd yn defnyddio'r gwasanaeth er mwyn ei uwchraddio. Cydnabuwyd bod hyn wedi rhoi llwyth gwaith ychwanegol ar y gwasanaeth ac wedi arwain at gwymp mewn niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth Teleofal am y tro cyntaf. Cadarnhawyd bod y gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn dda a gobeithir bydd pob defnyddiwr y gwasanaeth gyda'r fersiwn digidol erbyn diwedd Mawrth 2025.
- Cadarnhawyd bod y broses Craffu yn bwysig iawn i weithrediad y Cyngor, gan nodi bod yr Adran wedi derbyn adborth cadarnhaol am y Cynllun Gweithredu Tai gan y Pwyllgor Craffu Gofal.
    - Ymhelaethwyd bod yr Adran hefyd wedi bod yn mynychu Pwyllgor Craffu Gofal ar gyfer trafod y Polisi Gosod a materion eraill gan nodi eu bod yn sesiynau adeiladol iawn. Ychwanegwyd bod sesiwn Craffu diweddar wedi cael ei gynnal gyda'r Adran a chynrychiolwyr o'r Asiantaethau Tai a'i fod yn gyfle gwerthfawr iawn i rannu llawer o wybodaeth.
- Cyfeiriwyd at y Pecynnau cefnogaeth sydd ar gael i landlordiaid preifat fel rhan o Gynllun Lesu Cymru, gan apelio at landlordiaid Meirionnydd i ddod i gyswllt gyda'r adran er mwyn trafod opsiynau sydd ar gael iddynt.
- Llongyfarchwyd yr Adran a'u partneriaid am eu gwaith yn y maes digartrefedd.

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan atgoffa bod yr Adran yn gyfrifol am dri chynllun o fewn Cynllun y Cyngor. Adroddwyd bod risg cyffredin i'w weld ym mhob un o'r cynlluniau hynny, sef bod eu prif ffynhonnell ariannu yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2025.

Eglurwyd bod diweddariadau wedi cael eu cadarnhau ers cyflwyno'r adroddiad ysgrifenedig hwn i'r Cabinet. Diweddarwyd cyllid cynllun 'Levelling up' y Llywodraeth wedi cael ei ymestyn hyd at Fawrth 2027. Ymhelaethwyd bod yr Adran yn disgwyl cadarnhad bydd cyllid SPF (Cronfa Ffyniant Gyffredin) yn cael ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol, gyda chadarnhad swyddogol ar ei ffordd yn fuan.

Cydnabuwyd bod ansicrwydd cyllidol yn parhau gyda rhai cronfeydd megis cronfa ARFOR. Nodwyd y disgwylir derbyn mwy o wybodaeth am y gyllideb hon yn dilyn cyhoeddiad cyllideb Llywodraeth Cymru o fewn yr wythnosau nesaf.

Manylwyd ar brosiect Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi gan nodi bod cynnydd i ddatblygiad y prosiect yn dilyn cyllideb SPF. Eglurwyd bod 22 o brosiectau mentrau a sefydliadau lleol yn cael eu gweithredu o fewn y prosiect. Cadarnhaodd bod cyllideb o £1.8miliwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd er mwyn datblygu'r prosiectau hyn hyd at Fawrth 2025. Adroddwyd bod Cynllun Creu Lleoedd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Pwllheli, Porthmadog a'r Bala, gyda chynllun yn cael ei baratoi ar gyfer Dolgellau. Ymhelaethwyd bod arian cynllun Traws Newid Trefi ychwanegol wedi cael ei gadarnhau ar gyfer gwella Canolfan Bro Tegid, Y Bala a Chynllun y Tŵr, Pwllheli.

Cadarnhawyd bod Achos Amlinellol Strategol Cynllun Hwb Iechyd a Lles Bangor wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gan nodi bod cais am gyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei gyflwyno.

Tynnwyd sylw at brosiect 'Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith'. Eglurwyd bod cyllideb o £1.4 miliwn a ariannwyd gan SPF wedi cael ei ddyrannu i Gronfeydd Datblygu Busnes, gyda 45 o fusnesau Gwynedd wedi derbyn cynigion o gymorth hyd yma.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn am ei waith blaengar er mwyn sicrhau cyllideb ARFOR i Awdurdodau gorllewinol Cymru, gyda'r gobaith bydd yr arian yn parhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ymhelaethwyd ei fod hefyd wedi bod yn gwneud gwaith arweiniol o fewn cynllun Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i gynlluniau Rhaglen Ddigidol, Ynni, Twristiaeth, Bwyd-Amaeth a Thir ac Eiddo.

Cyfeiriwyd at 'Wythnos Busnes Gwynedd' a gynhaliwyd ym mis Hydref. Eglurwyd ei fod yn wythnos lwyddiannus iawn gyda nifer o fusnesau yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn Nolgellau, Bangor a Phwllheli. Cadarnhawyd bydd newyddlen benodol yn cael ei rannu gyda holl Gynghorwyr Gwynedd gyda manylion pellach am y digwyddiadau a'r adborth a dderbyniwyd gan fusnesau Gwynedd.

Diolchwyd i wasanaeth Gwaith Gwynedd am eu cefnogaeth eleni, gan eu bod wedi sicrhau swydd ar gyfer 203 o drigolion Gwynedd yn ystod 2024/25 hyd yma. Ymhelaethwyd bod 8 o ffeiriau swyddi hefyd wedi cael eu cynnal er mwyn helpu trigolion i ganfod gwaith a helpu cyflogwyr i lenwi swyddi gwag. Cadarnhawyd bod

dros 130 o gyflogwyr wedi mynychu'r ffeiriau hyn gyda dros 750 o unigolion yn bresennol.

Nodwyd bod strwythur rheoli newydd ar gyfer y Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy bellach yn weithredol ac yn arwain ar ddatblygiad Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024/25. Ychwanegwyd bod trefniadau yn llwyddiannus gan ddiolch i'r holl bartneriaid.

Cyfeiriwyd at raglen Llewyrch o'r Llechi sydd yn creu budd lleol i ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Cymru. Tynnwyd sylw at waith uwchraddio sydd wedi bod yn Neuadd Ogwen, Bethesda yn ddiweddar gan nodi ei fod bron a chwblhau erbyn hyn. Nodwyd bod nifer o fuddsoddiadau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd megis Parc Padarn, Amgueddfa Llechi Llanberis llwybr cyswllt Blaenau Ffestiniog ac Aelwyd yr Urdd Blaenau Ffestiniog. Mynegwyd balchder bod £2m wedi cael ei gadarnhau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn ymestyn cefnogaeth i'r cymunedau llechi am gyfnod o 5 mlynedd.

Mynegwyd balchder bod cwmni Byw'n Iach wedi llwyddo i adfer y gwasanaeth yn dilyn blynyddoedd heriol iawn yn sgil y pandemig. Cadarnhawyd bod lefelau perfformiad wedi cynyddu i'r un lefelau a  chyfnod cyn Covid-19. Cyfeiriwyd hefyd at nifer o welliannau a gwaith uwchraddio sydd ar y gweill ym Mharc Padarn a Pharc Glynllifon. Eglurwyd bod y Parciau Gwledig hyn yn defnyddio system adrodd boddhad cwsmer newydd ac mae cynnydd i weld yn y canlyniadau o'i gymharu â 2023/24 ble defnyddiwyd y system am y tro cyntaf.

Cydnabuwyd bod tywydd newidiol tymor yr haf eleni wedi cael effaith ar wasanaethau morwrol yr Adran. Eglurwyd bod hyn i'w weld yn bennaf mewn diffyg incwm mewn meysydd parcio traethau'r sir. Er hyn, nodwyd bod y tywydd newidiol wedi bod o fantais i rai gwasanaethau megis Neuadd Dwyfor.

Eglurwyd bod Amgueddfa Lloyd George wedi cau ar gyfer cwblhau buddsoddiadau adnewyddu ar hyn o bryd. Gobeithiwyd bydd yr amgueddfa yn ail agor erbyn Pasg 2025 wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.

Adroddwyd bod y patrwm o ostyngiad yn nifer o ddefnyddwyr llyfrau llyfrgelloedd. Er hyn, pwysleisiwyd bod cynnydd i'w weld mewn niferoedd o ddefnydd gwasanaethau digidol yn ogystal â'r gwasanaethau a ddarperir mewn llyfrgelloedd i gefnogi pobl. Cadarnhawyd bod ymateb cadarnhaol iawn wedi cael ei dderbyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Diolchwyd i Nia Gruffydd (Rheolwr Strategol Gwasanaeth Llyfrgelloedd) am ei gwaith arweiniol o ddatblygu newidiadau i system rheoli llyfrgelloedd (LMS) er budd llyfrgelloedd drwy Gymru gyfan. Cadarnhawyd bydd ei gwaith yn sicrhau gwasanaeth mwy cost effeithiol yn genedlaethol.

Nodwyd bod yr Adran yn gweithio i wireddu cynlluniau arbedion ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod gwaith pellach yn cael ei wneud er mwyn gwirio lefelau incwm Neuadd Dwyfor fel rhan o'r gwaith hwnnw. Rhagwelwyd bydd yr Adran yn gorwario oddeutu £127,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Er hyn, pwysleisiwyd bod camau wedi cael eu hadnabod er mwyn ceisio rheoli a lleihau'r diffyg hwn dros y misoedd nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Ategwyd diolchiadau i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn am ei waith o fewn y maes Economi a Chymuned yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tynnwyd sylw penodol am ei waith ar Strategaeth Economi Ymweld Cynaliadwy, ARFOR a'r Fforwm Wledig.
- Canmolwyd cwmni Byw'n Iach am sicrhau cynnydd mewn defnydd ac incwm yn dilyn y pandemig. Tynnwyd sylw at ganlyniadau boddhad cwsmeriaid Byw'n Iach gan holi'r Adran os oes bwriad i uwchraddio ystafelloedd ffitrwydd ac adrannau eraill y canolfannau hamdden.
    - Cadarnhawyd bod bwriad i uwchraddio'r canolfannau. Pwysleisiwyd bod bid ariannol wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor eleni. Eglurwyd hefyd bod cronfa ar gael i'r perwyl hwn ond y byddai'n cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen yn hytrach na chwblhau'r gwaith ar draws y Sir gyda'i gilydd. Nodwyd bydd hyn hefyd yn caniatáu'r cyfle i'r Adran asesu os yw'r gwaith uwchraddio yn arwain at gynnydd mewn defnyddwyr ac incwm.
- Diolchwyd i'r Adran am eu gwaith. Anogwyd y staff a chynghorwyr i rannu gwybodaeth am lwyddiannau'r economi gyda thrigolion y Sir.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad ar yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Cadarnhawyd bod yr Adran yn arwain ar 6 o brosiectau o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023-28.

Adroddwyd bod pumed gyfres o raglen ddatblygol 'Merched Mewn Arweinyddiaeth' ar y gweill ar hyn o bryd. Ymfalchïwyd bod diddordeb gan ferched o bob adran i gymryd rhan yn y rhaglen. Mynegwyd balchder bod y ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 41%, sydd yn gynnydd o 11% ers sefydlu'r prosiect. Cadarnhawyd bod data ar gynnydd ac mae effaith y prosiect yn cael ei ddiweddaru yn gyson.

Cynhaliwyd peilot cyflwyno ffurflenni cais swyddi yn ddienw eleni. Nodwyd i fabwysiadu'r peilot yn hir dymor ar gyfer swyddi o ricyn 'Arweinydd Tîm' ac uwch, yn dilyn adborth cadarnhaol gan reolwyr sydd wedi penodi staff yn ystod cyfnod y cynllun. Eglurwyd ei fod yn ddull safonol o ystyried ceisiadau a chadarnhawyd bydd y trefniadau yn cael eu hadolygu pob 6 mis.

Atgoffwyd bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 wedi cael ei fabwysiadu fel rhan o brosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb'. Eglurwyd bod gwahanol wasanaethau o fewn y Cyngor yn cydweithio er mwyn rheoli amrywiol agweddau o'r cynllun. Mynegwyd balchder bod gwaith wedi ei wneud er mwyn datblygu cerrig milltir fanwl ar gyfer yr holl feysydd, gyda phob un ar draw i'w cwblhau'n amserol eleni. Ymhellach,

nodwyd bod hyfforddiant ar ddyletswyddau rheolwyr yn y maes cydraddoldeb yn y broses o gael ei greu, gyda gwybodaeth benodol ar sut i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Pwysleisiwyd bod gan benaethiaid fynediad at wybodaeth sydd yn rhoi darlun byw o niferoedd staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd ar gydraddoldeb.

Mynegwyd balchder bod dros 300 o geisiadau ymysg y cynllun prentisiaid eleni, gan nodi fod hyn oddeutu dwywaith nifer yr ymgeiswyr o'r llynedd. Cadarnhawyd bod 15 prentis newydd a 5 hyfforddai proffesiynol newydd wedi eu penodi. Eglurwyd y golyga hyn bod y Cyngor yn cyflogi 51 o brentisiaid a hyfforddeion proffesiynol ar gytundebau llawn amser ar hyn o bryd Ymfalchïwyd bod 8 prentis a 2 hyfforddai proffesiynol wedi cwblhau eu cymwysterau ac wedi derbyn swyddi llawn amser gyda'r Cyngor yn ddiweddar. Tynnwyd sylw hefyd at 4 person ychwanegol sydd wedi cael eu cyflogi drwy'r Pŵl Talent.

Tynnwyd sylw penodol at y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth gan ddiolch iddynt am eu gwaith manwl i asesu effaith Premiwm Treth Cyngor yn ddiweddar. Ymhelaethwyd eu bod hefyd wedi derbyn cydnabyddiaeth yn ddiweddar am eu hadolygiad o wasanaethau gofal pobl hŷn i'r dyfodol yng Ngwynedd drwy gynllun Llechen Lân, gan fod y gwaith wedi cyrraedd rhestr fer mewn digwyddiad cenedlaethol ym maes ymchwil, gyda'r canlyniad i'w gyhoeddi yn fuan.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Llongyfarchwyd yr adran ar lwyddiant cynllun 'Merched Mewn Arweinyddiaeth' a phrentisiaid.
- Cyfeiriwyd at gynllun 'Cadw'r Budd yn Lleol' gan ofyn am wybodaeth bellach ar ddatblygiad y cynllun.
  - Eglurwyd bod y cynllun yn ymdrechu i sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill cytundebau caffael gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol. Nodwyd bod hyn yn arwain at fuddion cymdeithasol i Wynedd. Adroddwyd y bwriedir adeiladu ar y buddion i'r dyfodol

Cyflwynwyd yr adroddiad ar yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod perfformiad y Gwasanaeth Cyfreithiol yn cael ei fonitro drwy dderbyn adborth yr Adrannau sydd yn gwneud defnydd ohono. Ymhelaethwyd bod yr adborth a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn ariannol bresennol yn cadarnhau bod 100% o ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cyfreithiol yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Mynegwyd balchder bod y Gwasanaeth wedi elwa o fod yn rhan o Gynllun Yfory ers rhai blynyddoedd, a nodwyd bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i ennyn diddordeb unigolion sydd yn cyflawni eu cymwysterau ac yn derbyn swyddi o fewn y Gwasanaeth. Ymhelaethwyd bod y Gwasanaeth hefyd wedi elwa o gynllun Prentisiaid gan nodi bod prentis para gyfreithiol cyntaf y Gwasanaeth wedi cael ei benodi'n ddiweddar. Cadarnhawyd bod prentis hefyd wedi cael ei benodi o fewn y Tîm Etholiadol.

Sicrhawyd bod y trafferthion recriwtio o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol bellach wedi cael ei ddatrys gan nodi bod modd i'r Gwasanaeth gynllunio ar gyfer cyfarch gofynion

rhanbarthol. Eglurwyd y gwelir cynnydd yn y galw am adnoddau wrth i Gyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd baratoi i fod yn weithredol.

Cadarnhawyd bod dau etholiad wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Eglurwyd bod yr Etholiad Cyffredinol yn her newydd i'r gwasanaeth Etholiadau gan ei fod yn etholiad trawsffiniol, gan alw am gydweithio effeithiol gydag awdurdodau Conwy a Dinbych.

Diolchwyd i holl staff Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw at gynllun peilot Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu'r ffordd fwyaf cywir ac effeithiol o gofrestru etholwyr heb iddynt orfod gwneud cais.
    - Eglurwyd bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r peilot i gofrestru trigolion yn awtomatig i etholiadau Llywodraethol, gan ddefnyddio data sydd ar gael i'r Cyngor Gobeithir bydd hyn yn cynyddu niferoedd pleidleiswyr mewn etholiadau'r Deyrnas Unedig a'r Senedd yng Nghymru. Nodwyd bod y peilot yn cael ei weithredu o 2025 ymlaen ac felly mae'r tîm Etholiadol yn gweithio ar systemau er mwyn datrys unrhyw ddiffygion.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddiolch i holl weithwyr gofal sydd yn gweithio i gefnogi pobl fregus drwy gydol y flwyddyn ac yn enwedig yng nghanol y tywydd garw diweddar.

Cadarnhawyd bod y gwaith o uwchraddio cartrefi gofal yn y Bermo a Dolgellau. Yn yr un modd, ymfalchïwyd bod y gwaith yn Hafod Mawddach. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn canfod unigolion addas i ddefnyddio'r offer sydd ar gael yn y Bermo a Hafod Mawddach ar hyn o bryd. Mynegwyd balchder bod y gofal Dementia arbenigol angenrheidiol bellach ar gael i ddioddefwyr yn Hafod Mawddach yn dilyn cyfnod heriol.

Cydnabuwyd bod gallu'r Cyngor i weithredu fel landlord yn Nhŷ Meurig, sydd yn darparu llety i unigolion sydd yn derbyn cefnogaeth yr Adran, wedi bod yn heriol yn y gorffennol. Er hyn, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn cadarnhad bod modd gweithredu fel landlord a darparu tenantiaeth gan sicrhau mwy o reolaeth dros y ddarpariaeth i ddatblygiadau cyffelyb. Ymhelaethwyd bod yr Adran wedi cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn dylunio'r adeilad yn y gobaith o dderbyn caniatâd cynllunio pan yn amserol.

Eglurwyd bod llithriad bychan yn yr amserlen ar gyfer datblygu tŷ a chefnogaeth ble roedd bwriad iddo fod yn barod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Fydd bynnag, cadarnhawyd bod yr Adran yn ymdrechu i sicrhau bod y tŷ hwn ym Mhwllheli yn barod cyn Haf 2025. Ymhelaethwyd bod ail dŷ, ym Mhenrhyndeudraeth yn debygol o fod yn barod erbyn gwanwyn 2025.

Adroddwyd bod y gwaith tendro ar gyfer datblygu Canolfan Dolfeurig wedi cael ei gynnal yn ddiweddar ond bod y cynigion a ddaeth i law yn sylweddol uwch na'r arian a ymrwymwyd o fewn Cynllun y Cyngor. Ymhelaethwyd bod yr adran wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o ariannu'r bwlch yng nghostau'r cynllun a phwysleisiwyd bydd penderfyniad yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn, er mwyn gallu cychwyn ar ddatblygu'r safle.

Ymfalchïwyd bod Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu wedi cael ei phenodi ac mae gwaith o hyrwyddo cyfleoedd gwaith a chefnogi unigolion i waith cyflogedig yn mynd rhagddo.

Eglurwyd bod y canran o oriau gofal cartref sydd heb eu diwallu ar ei isaf ers blwyddyn, gyda 84 o unigolion yn aros am ofal cartref. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cynnal trafodaeth gyda phartneriaid yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod llai o bobl yn gorfod aros am wasanaeth gofal cartref yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd gan gydnabod bod rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad gofal yn parhau i gynyddu. Esboniwyd bod yr her fwyaf yn ymwneud â diffyg capasiti therapyddion galwedigaethol. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn ymwybodol ar yr heriau hyn gan geisio sicrhau bod adnoddau a swyddogion yn cael eu targedu'n effeithiol er mwyn datrys rhai o'r problemau sy'n codi.

Nodwyd bod cynnydd i'w weld yn y canran o oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol er mwyn ariannu trefniadau gofal eu hunain. Ymhelaethwyd bod nifer o ganllawiau wedi cael eu datblygu yn ogystal ag ymgyrchoedd i hyrwyddo'r cynnig hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i'r holl unigolion sydd yn y Sir sydd yn ofalwyr di-dâl. Cydnabuwyd bod eu gwaith yn hanfodol bwysig fel rhan o ddarpariaeth Gofal yng Ngwynedd. Pwysleisiwyd mai un o flaenoriaethau strategol yr Adran yw ymgyrchu i rannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, gan annog gofalwyr o bob oed i gysylltu gyda'r Cyngor os ydynt yn gofalu am eu hanwyliaid, megis cefnogaeth addysg a gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:30pm

**CADEIRYDD**

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Strategaeth / Cynllun Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Llio E. Owen |
| **Swyddog perthnasol:** | Catrin Love |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17ain Rhagfyr 2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn y Cynllun Llesiant fel cynllun ar gyfer cefnogi a hybu llesiant staff tros y blynyddoedd nesaf.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mae'n bwysig fod Aelodau'r Cabinet yn ymwybodol ac yn fodlon â chynnwys y cynllun hwn sy'n strategaeth allweddol i fod yn cefnogi llesiant staff am y blynyddoedd nesaf.

Daw'r Cynllun ger bron y Cabinet i gael ei derbyn yn ffurfiol wedi proses ymgynghoriad faith. Mae'r ymgynghoriad hynny wedi cynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Panel, a'r Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol, Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol a'r Rhwydwaith Rheolwyr. Mae'r ddogfen hefyd wedi ei chraffu yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi nol ym Mis Hydref.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

Mae'n allweddol fod gan y Cyngor fframwaith clir i fod yn cefnogi llesiant staff.

Mae gwarchod llesiant ei staff yn gyfrifoldeb moesol ar unrhyw gyflogwr. Mae methiant i wneud hynny hefyd yn cyflwyno risgiau ariannol a chyfreithiol i'r Cyngor.

Mae'r buddion o ymgorffori llesiant i bob agwedd o ddiwylliant y Cyngor yn cynnwys:

- Denu gweithwyr newydd
- Cadw ein gweithwyr presennol
- Gostwng cyfraddau absenoldeb salwch
- Gwella perfformiad a datblygiad ein staff.

Yn hynny o beth, mae'r Strategaeth hon yn clymu mewn i sawl prosiect blaenoriaeth arall sydd yng Nghynllun y Cyngor, megis Cynllunio'r Gweithlu.

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Mae'r Cynllun Llesiant a gyflwynir ger eich bron yn ddogfen sy'n amlinellu blaenoriaethau y Cyngor o ran llesiant staff tros y blynyddoedd nesaf. Mae gan y Cyngor raglen waith fanwl ar gynnal a chefnogi llesiant staff ers blynyddoedd lawer, ac mae hynny wedi arwain yn ei dro at gydnabyddiaeth trwy achrediad y Safon Iechyd Corfforaethol gan Lywodraeth Cymru ble dyfarnwyd y wobr Aur sawl tro yn olynol. Yn anffodus, mae'r cynllun achrediad hwnnw bellach wedi dod i ben.

Ers y cyfnod clo fodd bynnag, caiff ei gydnabod fod yr her o ran llesiant staff, a llesiant meddyliol yn boblogaeth yn gyffredinol wedi cynyddu'n arw. Mae ffigyrau diweddar gan sefydliad 'MIND' yn amlygu fod traean o'r boblogaeth oed gwaith o'r farn fod eu iechyd meddwl wedi dirywio yn sylweddol ers Mawrth 2020. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y niferoedd staff sydd wedi bod yn gwneud defnydd o gefnogaeth sydd ar gael trwy'r Cyngor, ple bu cynnydd sylweddol mewn defnydd y Gwasanaeth Cwnsela ayb. Gwyddom hefyd wrth gwrs fod ffigyrau absenoldebau salwch y Cyngor yn her gynyddol gyda'r gwir gost yn 23/24 wedi ei gyfrifo i fod yn £5.7 miliwn.

Wrth adlewyrchu ar y cyfnod eithriadol sydd wedi bod ers Mawrth 2020, mae'n deg dweud hefyd fod newid meddylfryd wedi bod o fewn y maes yn gyffredinol ynglŷn ac effeithiolrwydd rhai strategaethau llesiant yn y gorffennol, a chydnabyddiaeth nad yw unrhyw strategaeth llesiant yn mynd i gyrraedd ei llawn botensial pan yn bodoli yn ynysig o fewn sefydliad, heb fod yn plethu mewn yn greiddiol gyda cynlluniau blaenoriaethau eraill o ran diwylliant, ac arweinyddiaeth. I'r perwyl hwn, mae 'Gweithlu Iach a Bodlon' bellach yn un o ffrydiau gwaith yng Nghynllun Ffordd Gwynedd sydd yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor 2023-28, ac mae'r strategaeth hon yn ddarn pwysig o'r gwaith hwnnw. Mae hyn yn gosod seilwaith gadarn i faterion llesiant staff fod yn greiddiol yn natblygiad diwylliant y Cyngor yn gyffredinol, a'r ffordd ydym yn datblygu ein Arweinyddiaeth a'n Rheolwyr i'r dyfodol. Yn syth, trwy fod wedi datblygu linciau agosach i waith ehangach ar ddiwylliant y cyngor, fe ymgorfforwyd rhan gyfan yn yr Holiadur Llais Staff eleni ar lesiant staff, ac mae'r canlyniadau wedi eu bwydo mewn i'r Strategaeth hon.

Yn Ddeddfwriaethol, mae dyletswydd statudol i fod yn cefnogi a chyfarch llesiant staff. Mae Deddfau Cyflogaeth, megis y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod gofynion caeth, ac yn wir, mae'r dyletswydd i fod yn gwarchod iechyd meddwl staff yn un sy'n cael sylw cynyddol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gosod gofynion o ran ddatblygu rhaglenni cynaliadwy sy'n cyfarch llesiant, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Trwy'r uchod, fe welir felly fod camau eisoes wedi eu cymryd i roi seilwaith i'r strategaeth hon, a'i bod yn amser am strategaeth newydd sy'n cyfarch gofynion yr oes ôl-bandemig, a'r heriau penodol a ddaw yn sgil hynny. Mae'r risgiau o beidio cael strategaeth yn dri-phlyg. Maent yn rai moesol o fod yn cyfrannu at ddirywiad llesiant staff, yn rai ariannol yn sgil y ffigyrau absenoldeb a'r risgiau o hawliadau iawndal yn erbyn y Cyngor, ac yn rai cyfreithiol o fod yn methu cyrraedd isafswm yr hyn y dylid fod yn ei wneud i warchod gweithwyr. Mae gweithlu iach wrth galon popeth y mae'r Cyngor wedi ei ymrwymo iddo o ran gwasanaethu'r Cyhoedd, ac mae'n ffactor sy'n plethu mewn i gymaint o ffrydiau gwaith blaenoriaeth eraill o ran y gweithlu, megis denu a chadw staff, a'r drefn gwerthuso staff, er mwyn eu cael i ffynnu yn y gwaith a gallu rhoi'r Gwasanaeth gorau posibl i'r Cyhoedd.

Mae'r Strategaeth drafft yn seiliedig ar ymarfer da a'r ymchwil diweddaraf yn y maes yn genedlaethol a rhyngwladol, ac yn cyflwyno tri sylfaen i lesiant sydd yn seiliedig ar waith gan sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae llwyddiant y strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio ar lefel Cyngor cyfan ac ar bob lefel o'r Sefydliad, fel fo'r egwyddorion yn treiddio trwy'r sefydliad ac yn cyrraedd pob aelod staff ar y rheng flaen.

Mae'r cydlynu yn gorfforaethol ar y maes yma yn digwydd o fewn y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant. Caiff gwariant a'r angen am adnodd ei fonitro a'r asesu fel rhan o redeg y Gwasanaeth hwnnw, ac yn y gorffennol mae bidiau am fwy o arian wedi ei wneud, ac wedi eu cymeradwyo. Yn y blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi cynnwys bid am arian un tro i fod yn targedu llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, a bid arall am gynnydd parhaol i'r gyllideb ar gyfer Cwnsela Medra. Eto, cafodd hwn ei gymeradwyo. Byddwn yn monitro yn ofalus y cynnydd mewn cyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn sgil lansio polisi a system absenoldebau newydd er mwyn sicrhau fod yr adnodd yn ddigonol i ymdopi. Dylid nodi fod denu a cadw staff yn Nhîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor yn hanesyddol heriol.

**3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad**

Mae'r Cynllun yn gyffredinol wedi ei groesawu yn ystod y broses ymgynghorol, gyda unrhyw sylwadau perthnasol wedi eu hymgorffori, ac mae'n amserol iawn cael derbyniad y Cabinet cyn diwedd y flwyddyn er mwyn cael gyrru ymlaen a chynlluniau gwaith manwl yn syth yn y flwyddyn newydd.

Mae asesiad cydraddoldeb ar y Cynllun wedi ei atodi a'r prif fater sydd wedi codi yw'r angen i sicrhau fod gwybodaeth cyfartal i bawb o staff y Cyngor am y Cynllun, boed ganddynt fynediad i gyfrif digidol a'i peidio.

**3.3 Camau nesaf**

Bydd rhaglen waith manwl yn cael ei rhoi ar waith yn seiliedig ar y tri sylfaen llesiant o fewn y Cynllun, ac mae sylwadau pendant wedi eu derbyn yn ystod y broses ymgynghori o beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen honno.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

"Yn ogystal â'r dyletswydd foesegol a chyfreithiol, mae oblygiadau ariannol bositif o wneud y gorau gallwn i warchod llesiant. Mae'r adroddiad yn amlygu cost ariannol sylweddol absenoldeb salwch, a thra na allwn fyth ddileu absenoldeb salwch yn llwyr rwyf yn cefnogi'n llawn yr ymdrechion i wneud cymaint ag y gellir i amddiffyn llesiant staff y Cyngor.

### 4.2 Swyddog Monitro

Fe nodir yn yr adroddiad fod sawl amcan yn cael ei gyfarch wrth fabwysiadu a gweithredu Strategaeth Llesiant staff. Mae'n cynrychioli ymrwymiad pwysig a chadarnhaol i les cyflogeion y Cyngor. Ond, mae hefyd yn gyfrwng pwysig i sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd gofal tuag at ei staff. Rwy'n croesawu y Strategaeth a chadarnhau priodoldeb y penderfyniad a geisir

**Rhestr Atodiadau:**

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

# Cynllun Llesiant Staff y Cyngor 2024 - 2028

**GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

CYNGOR GWYNEDD

Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant
1 Hydref 2024

# Cynllun Llesiant Staff Cyngor Gwynedd

**RHAGAIR**

Croeso i Gynllun Llesiant Staff Cyngor Gwynedd. Mae llesiant ein gweithwyr yn flaenllaw i ni yma yn y Cyngor ac yn un o brif ffrydiau gwaith y **Prosiect Blaenoriaeth Ffordd Gwynedd – Gweithlu Bodlon ac Iach**. Mae cael gweithlu sy'n iach, bodlon a gwydn yn ein galluogi i berfformio'n well, cyflawni mwy, addasu'n gyflymach i newid ac mae hynny'n hanfodol er mwyn rhoi'r gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl Gwynedd.

**PAM CAEL CYNLLUN LLESIANT?**

Mae cael Cynllun Llesiant strwythuredig a chynhwysfawr yn cynorthwyo'r Cyngor i:

- ✓ Ddenu gweithwyr newydd;
- ✓ Ymgysylltu, ysgogi a chadw gweithwyr;
- ✓ Creu diwylliant iach a chynhwysol;
- ✓ Gostwng cyfraddau absenoldeb salwch;
- ✓ Gwella perfformiad a datblygiad unigolion;
- ✓ Gwella cynhyrchiant a sicrhau llwyddiant.

**LLESIANT YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

Yng Nghyngor Gwynedd yn ystod 2023/24:

- Gwir gost absenoldebau i'r Cyngor oedd **£5.7m**
- Collwyd **14,404 (22.13%)** o ddyddiau gwaith oherwydd absenoldeb salwch yn gysylltiedig â straen, iselder a phroblemau iechyd meddwl;
- Collwyd **7,718 (11.86% )** o ddyddiau gwaith oherwydd absenoldeb salwch yn gysylltiedig â phroblemau cyhyrysgerbydol;
- Cofnodwyd 'Sâl arall' fel prif reswm dros salwch **22.79%**;
- Cyfrannodd absenoldebau tymor hir at **51%** o ddyddiau absenoldeb salwch y Cyngor;
- Ar gyfartaledd mae pob swyddog o fewn y Cyngor wedi colli **10.29** diwrnod gwaith y flwyddyn;

- Collwyd **2.72%** yn fwy o ddyddiau absenoldeb salwch yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23.

- Cyfeirwyd 665 o staff at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol

- Cyfeirwyd 194 o staff y Cyngor at y Gwasanaeth Cwnsela (Medra)

- Cyfeirwyd 129 o staff y Cyngor at y Gwasanaeth Ffisiotherapi

Yn ystod Hydref 2023 rhannwyd Arolwg Llais Staff gyda phob aelod o staff y Cyngor. Pwrpas Arolwg Llais Staff oedd i ddarganfod beth mae gweithwyr y Cyngor ei angen er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwaith, pa gymorth neu gefnogaeth maent ei angen er mwyn gallu gwneud eu gwaith a pa wybodaeth sydd ei angen arnynt i ynglŷn â buddiannau, hawliau a chyfrifoldebau.

Wedi dadansoddi'r data a barn staff ynglŷn a llesiant yn y Cyngor, dyma grynodeb o'r prif themâu ac ambell sylwad a dderbyniwyd gan staff ar faterion llesiant:

**Rôl eu rheolwr**

- *Mae angen mwy o hyfforddiant i Reolwyr Llinell ar sut i ymdrin a'u staff*
- *Rwyf angen mwy o gefnogaeth gan fy rheolwr llinell*
- *Mae angen cadw cyswllt rhwng gweithwyr â rheolwyr tîm er mwyn gwneud yn siwr fod yr holl wybodaeth yn cael ei rannu*
- *Lwcus iawn i'w gael fel Rheolwr. Hyn sydd wedi profi i mi fod y Cyngor yn wirioneddol boeni am lesiant staff. Mae fy rheolwr yn cynnal 1 i 1 hefo fi er mwyn gweld sut ydw i.*

**Straen**

- *Gormod o bwysau gwaith, gormod o waith ychwanegol wedi cael ei orfodi arnom*
- *Pwysau gwaith yn cynyddu*
- *Rhannu gwaith yn decach rhwng y tim*
- *Byddai yn dda gweld y Cyngor yn ystyried llwyth gwaith a chapasiti. Nifer o swyddogion gyda llwyth gwaith enfawr sydd fydd yn y pendraw yn effeithio ar lesiant*

**Hyrwyddo digwyddiadau llesiant**

- *Nid wyf yn teimlo fod neb yn gofyn am fy llesiant*
- *Damwain a hap oedd ffeindio allan fod sawl gwasanaeth cymorth ar gael*
- *Dim digon da i adael i weithwyr geisio darganfod y cymorth sydd yno i'w cefnogi*
- *Amlygu mwy am y gefnogaeth dda sydd ar gael – pawb ddim yn gwybod amdano*

**Amgylchedd waith**

- *Nid yw'r swyddfeydd yn hyrwyddo llesiant, popeth yn hên.*
- *Angen amgylchedd waith addas i bwrpas, a brafiach*
- *Cael gofod i fynd i fwyta cinio*

- *Mae angen desgiau addas a chael rhywle i fynd am doriad o’r ddesg*
- *Delwedd y swyddfeydd yn drychinebus a thlotaidd a gwneud rhywun yn ddi-bleser cerdded i mewn*

Rydym yn treulio rhan helaeth o’n bywydau yn y gwaith. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) mae tystiolaeth gynyddol yn dangos y gall y gweithle felly fod yn le effeithiol i wella llês unigolion. Os ydym yn anhapus yn ein gwaith am be bynnag reswm – gall fod yn berthnasau gwael gyda chydweithwyr, pwysau gwaith gormodol, neu Rheolwr anghefnogol, yna mae’n mynd i gael ardrawiad ar ein llesiant. Mae bod mewn gwaith yn gallu cynnig sicrwydd ariannol, cysylltiadau cymdeithasol, ac ymdeimlad o berthyn. Yn gryno, er mwyn sicrhau llesiant, mae angen i unigolyn fod yn cael boddhad o ddod i’w gwaith. Mae’r Cyngor yn chwarae rhan sylweddol felly wrth ddylanwadu ar iechyd a llesiant cyffredinol gweithwyr.

Wrth sicrhau ein bod yn gwireddu ein gweledigaeth gallwn ddenu, recriwtio a chadw staff mewn modd sy’n arddangos ein bod yn cymryd eu llesiant o ddifri fel eu bod yn cyfrannu’n rhagweithiol at gynhyrchiant ac effeithiolrwydd y Cyngor.

**EIN GWELEDIGAETH**

***"Gweithio gyda'n gilydd i wella llesiant ar draws holl weithlu'r Cyngor gan greu'r amgylchedd gwaith gorau posib er mwyn sicrhau ein bod yn creu gweithlu iach, gwydn a chynhyrchiol sy'n gallu gweithio hyd eithaf eu gallu i wasanaethu trigolion Gwynedd".***

**EIN NOD**

Mae ein prif amcanion o ran y cynllun llesiant yn seiliedig ar dri sylfaen, sef:

1. Arwain a Rheoli
2. Cefnogaeth gynaliadwy
3. Amgylchedd

Ceir mwy o wybodaeth am y tri syflaen isod, ond cyn edrych arnynt ymhellach dylid hefyd amlygu yr egwyddorion gweithredu ar gyfer y Cynllun. Rhain yw'r egwyddorion y byddwn yn glynu ac ymrymo iddynt wrth wireddu'r Cynllun. Rydym yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod ein gweledigaeth, nôd ac amcanion yn gyson a threfniadau a gweithdrefnau ehangach yn y maes adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch;

- Sicrhau fod amcanion allweddol y cynllun yn gyson ag amcanion Cynllun Ffordd Gwynedd;

- Sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn ymwybodol o'r gofyn statudol sydd arnynt.

- Sicrhau fod cydlynnu ar faterion llesiant yn gorfforaethol er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a'r cynnigion yn dêg ar draws y Cyngor, a fod rhaglenni penodol wedi eu targedu a'u blaenoraethu yn ôl yr angen am hynny.

## SYLFAEN 1: ARWAIN A RHEOLI

### Amcanion

- Sicrhau fod llesiant yn rhan ganolog o'n blaenoriaethau strategol ar gyfer ein harweinwyr a'n cynghorwyr ar draws pob swyddogaeth o fewn Cyngor Gwynedd a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'n gofynion statudol;

- Creu amgylchedd gwaith diogel ac iach sy'n meithrin diwylliant o les cadarnhaol, ble gweler llês ein gweithwyr yn rhan annatod o bopeth a wnawn;

- Creu rheolwyr effeithiol sydd â pherthnasoedd gwaith cryf yn unol â Chynllun Ffordd Gwynedd;

- Gwella gwelededd arweinwyr a sicrhau eu bod yn ymgysylltu gyda gweithwyr yn rheolaidd ac yn arddel pwysigrwydd llesiant;

- Sicrhau bod ein gweithwyr yn deall eu rolau, eu disgwyliadau, eu ffocws yn y dyfodol a chreu teimladau o ymrwymiad a boddhad personol.

- Gwella hyfforddiant arweinyddiaeth fel bod arweinwyr yn deall y cysylltiadau rhwng llesiant a meysydd craidd eraill fel iechyd a diogelwch a pherfformiad a datblygiad.

- Arfogi a grymuso rheolwyr i fod yn cynnal sgyrsiau rheolaidd a'u staff am eu llesiant

- Gwella llesiant ar gyfer ein gweithlu amrywiol a sicrhau bod llesiant yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar bawb ar draws Cyngor;

- Cael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis sy'n poeni am les ac yn cydnabod y rôl y gall llesiant ei chwarae yn y darlun ehangach gan gynnwys gwella cynhyrchiant a ffyrdd o weithio;

## SYLFAEN 2:  CEFNOGAETH GYNALIADWY

### Amcanion

- Darparu ystod o gymorth llesiant effeithiol yn seiliedig ar anghenion ein gweithlu, gan ddefnyddio dull cydweithredol.

- Mae ein cefnogaeth gynaliadwy yn canolbwyntio ar bedwar prif egwyddor llesiant sef:

➢ Meddyliol
➢ Corfforol
➢ Cymdeithasol
➢ Ariannol

### *1. Llesiant Meddyliol:*

➢ Hybu diwylliant ble gellir trafod llesiant meddyliol yn agored;

➢ Arfogi gweithwyr gyda'r sgiliau, gwybodaeth a hyder i ofalu am eu llesiant meddyliol eu hunau a chefnogi eraill;

➢ Darparu gwell mynediad at gymorth, cyngor a chyfeirio.

➢ Sicrhau bod asesiadau risg straen yn cael ei cwblhau a'i hadolygu yn rheolaidd.

➢ Adnabod 'Hyrwyddwyr Llesiant' ar draws Adrannau'r Cyngor gydag Amser i Newid Cymru;

➢ Parhau gyda'r rhaglen hyfforddiant i-Act a chymorth cyntaf iechyd meddwl;

➢ Parhau a datblygu ymhellach cefnogaeth arbenigol i'r gweithlu o ran niwromarywiaeth

➢ Cynnal ymgyrchoedd hybu iechyd sydd yn cyrraedd pob aelod staff drwy ymweliadau, tudalennau gwe, posteri, codau qr;

➢ Datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n cynrychioli arferion gorau o ran iechyd meddwl, gan gynnwys creu diwylliant agored a chynhwysol sydd yn dangos parch at yr unigolion sydd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl a'r stigma all fodoli o gwmpas hyn gan gynnwys polisi alcohol a chyffuriau;

➢ Cynnig cymorth 24 awr i'r holl staff drwy ddarparu gwasanaethau cwnsela ar gais;

➢ Hybu diwylliant anoddefgarwch o fwlio ac aflonyddu.

## *2. Llesiant Corfforol*

- Creu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u haddysgu am eu llesiant corfforol

- Cefnogi gweithwyr i ofalu am eu hunain a chymryd camau cadarnhaol o amgylch iechyd megis ffordd iach o fyw, cwsg, maeth, gweithgaredd corfforol, ysmygu, alcohol.

- Sefydlu rhaglenni ar gyfer cyflyrau clinigol penodol;

- Rhoi'r cyfle i holl weithwyr gynyddu gweithgarwch corfforol drwy godi ymwybyddiaeth o opsiynau ffordd iach o fyw, patrwm cwsg, ysmysgu, alchohol.

- Annog staff i ddilyn fframwaith pump ffordd i lesiant gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Cefnogi iechyd corfforol staff yn y gweithlu drwy hyrwyddo ein cynigion presennol ac ymchwilio'n barhaus i ddatblygu rhai newydd

- Cefnogi gweithwyr sydd yn sâl i aros yn eu gwaith ac i ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb salwch drwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

- Sesiynau Ffisiotherapi i staff cymwys sydd wedi cael niwed yn y gwaith, neu yn dioddef a symptomau sydd yn cael effaith ar ei dyletswyddau dyddiol.

- Sicrhau bod ein staff sy'n gweithio mewn maes ffisegol yn derbyn sesiynau Gwyliadwriaeth Iechyd yn unol a'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

- Gwella amgylchedd gwaith a'r trwy sicrhau bod staff yn cwblhau hunan-asesiad gweithfan.

## *3. Llesiant Cymdeithasol*

- Parhau i wella'r berthynas sydd gennym â'n gilydd ar draws y Cyngor;

- Meithrin perthnasoedd iach, cydweithredol, meithringar a chefnogol, sy'n cynnwys arweinyddiaeth dda, i feithrin cymuned ddiffuant o fewn Cyngor Gwynedd;

- Annog ymgysylltiad dinesig a chymunedol i wella ymdeimlad o berthyn a chreu cysylltiadau cryf o fewn cymuned ehangach Gwynedd.

- Creu cysylltiadau cryf â'r amgylchedd ehangach rydym yn byw ac yn gweithio ynddo drwy gydweithio gyda phobl Gwynedd.

- Magu perthynas gydag ysgolion, prifysgol, y gymuned ehangach er mwyn hyrwyddo cyfleoedd agored megis rhaglenni prentisiaethau, a chynllun yfory.

- Sicrhau fod cyfleoedd dysgu ar gael i weithwyr megis rhaglenni hyfforddi perthnasol i'r swydd ynghyd a chyfleodd i ddatblygu ac ehangu gorwelion;

- Creu amgylchedd gynhwysol sydd yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### *4. Llesiant Ariannol*

### *Amcanion*

- Cefnogi unigolion i ddod yn fwy ymwybodol o'u sefyllfa ariannol.

- Lleihau straen ariannol drwy gynorthwyo gweithwyr i reoli eu harian yn well a dod yn fwy diogel yn ariannol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd fel rheoli dyled, cyllidebu, cynilo, pensiynau, buddsoddiadau a byw o fewn ein modd.

- Cynnal a pharhau i ddatblygu pecyn buddion cynhwysfawr i staff

- Hyrwyddo arferion cyflogaeth sy'n osgoi cyflogau isel, contractau ansicr, cyflog annheg

## 3. SYLFAEN 3: AMGYLCHEDDOL

## Amcanion

- Adeiladu ymhellach ar yr amgylchedd waith ym mhob man gwaith i sicrhau fod diogelwch a llesiant yn rhan annatod o'r gweithle.

- Sicrhau fod ein holl bolisiau cyflogaeth, nid y Cynllun hwn yn unig, yn hybu llesiant staff

- Creu amgylchedd gynhwysol sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu.

- Adnabod a thargedu ymyrraeth a chefnogaeth mewn gweithleodd ple fo data yn cefnogi ymyrraeth / cefnogaeth mwy dwys er mwyn canfod a rhoi sylw i wraidd unrhyw batrymau absenoldebau.

**SUT FYDDWN YN GWEITHREDU'R CYNLLUN?**

Diben ein Cynllun yw sicrhau bod llesiant yn rhan hanfodol o'n hethos fel Cyngor. Mae angen i lesiant fod yn ganolog ar draws y Cyngor cyfan gan ddatblygu a chreu diwylliant ble mae llesiant yn cael ei hyrwyddo ar bob lefel o fewn y Cyngor ac yn cael effaith gadarnhaol ar anghenion unigol ac amrywiol pawb.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

## Ein Diwylliant

- Parhau i weithio ar gael y diwylliant priodol yn ei le fel bod llesiant yn dod yn un o werthoedd craidd y Cyngor ac yn cael ei integreiddio i'n gweithdrefnau, polisïau a'n harferion gwaith.

- Cynyddu gwelededd ac ymwybyddiaeth o lesiant, gan wella'r ffordd o gyfeirio at adnoddau mewnol ac allanol.

- Datblygu cynllun cyfathrebu clir i sicrhau fod negeseuon ynglŷn â llesiant yn treiddio ac yn cyrraedd gweithlu'r Cyngor;

## Atal

- Canolbwyntio ar gynorthwyo gweithwyr i wneud dewisiadau gwell, newid ymddygiad a rheoli eu llesiant yn well;

- Gwneud llesiant yn arferiad ac nid yn rhywbeth ar gyfer cyfnod o newid, argyfwng neu drallod;

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ac unrhyw fentrau llesiant sydd ynghlwm a'r gwasanaeth.

# Fy Llesiant

Byddwn yn :

- Codi ymwybyddiaeth o'r angen i bawb gymryd cyfrifoldeb personol o'u llesiant a chydnabod manteision mentrau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi anghenion unigol.

- Mapio beth mae lles yn ei olygu i unigolion ar wahanol adegau yn eu gyrfa gan adnabod a deall yr adegau allweddol sy'n bwysig i bobl, a'r effaith y gall y rhain ei chael ar eu llesiant fydd yn ei dro yn siapio ein mentrau llesiant.

- Dathlu amrywiaeth ein pobl, hyrwyddo cynhwysiant llesiant a gweithio i sicrhau bod llesiant yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i bawb.

## Cydweithio a Gweithredu ar Sail Tystiolaeth

Byddwn yn:


- Sicrhau bod mentrau llesiant yn seiliedig ar anghenion gweithlu a thystiolaeth ymchwil gadarn;

- Rhoi a derbyn adborth ac yn rhannu arfer gorau i feithrin cydweithio;

- Gwella’r ffordd o gasglu data i ddysgu mwy am ein gweithwyr ac olrhain tueddiadau i fesur llwyddiant a meysydd gwella.

- Olrhain a mesur cynlluniau gweithredu, gan gynnal adolygiadau rheolaidd.

**EIN MODEL LLESIANT INTEGREDIG**




Er mwyn gweithredu'r Cynllun yn effeithiol bydd angen cynllun gweithredu hirdymor sydd yn cynnwys manylion penodol a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i symud ymlaen i gyflawni.

Bydd angen sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei ategu gan gynlluniau busnes a gwasanaethau penodol megis Cynllun y Cyngor a Chynllun Ffordd Gwynedd.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ar ddiwedd pob blwyddyn er mwyn adolygu cynnydd ac effaith ac er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn cyd fynd ag amcanion strategol ehangach y Cyngor.

Yn y pen draw, dylai pob unigolyn yn y Cyngor weld a theimlo cysylltiad â nod ein Cynllun Llesiant a'n gweledigaeth.

**Blwyddyn 1**
Cyflwyno llesiant, cynllun gweithredu ac alinio a chynlluniau eraill

**Blwyddyn 2**
Llesiant yn sefydlu

**Blwyddyn 3**
Llesiant yn treiddio

**Blwyddyn 4**
Pwyso a mesur a chynllunio ar gyfer y camau nesaf

## MESUR LLWYDDIANT

Gellir mesur llwyddiant mewn sawl ffordd wahanol. Ein dull o fesur llwyddiant o safbwynt y cynllun hwn drwy broses gylchol o gydweithio, adlewyrchu ac adolygu gwelliant.

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o fesurau er mwyn mesur effaith y Cynllun Llesiant ac er mwyn sicrhau fod llesiant yn ffynnu ac yn ganolog i lwyddiant Cyngor Gwynedd.

Dyma rhai o'r dulliau fyddwn yn eu defnyddio i fesur llwyddiant:

- **Lefelau absenoldeb salwch;**
- **Arolygon rheolaidd ac adborth parhaus;**
- **Datblygu asesiadau effaith llesiant;**
- **Monitro a gwerthuso unrhyw ymyrraethau llesiant er mwyn sicrhau eu bod yn parhau fod yn effeithiol**
- **Adroddiad gwerthuso blynyddol a chynlluniau gweithredu wedi eu diweddaru;**
- **Boddhad cwsmeriaid / Cyrraedd nodau sefydliadol;**

## ADNODDAU

Yn sgil yr hinsawdd ariannol presennol, bydd rhaid defnyddio ein hadnoddau presennol i'r eithaf er mwyn cyflawni'r cynllun. Golyga hyn y bydd y Gwasnaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant o fewn yr Adran Gwasnaethau Corfforaethol yn arwain ac yn chydlynnu'r gwaith yn bennaf. Fodd bynnag, mae rôl allweddol o ran yr Hyrwyddwyr Llesiant a hefyd yr adrannau o ran perchnogi, cyfrannu a gweithredu'r cynllun hwn. Mae'n anorfod fod hynny'n golygu na ellir cyflawni agweddau o'r cynllun hwn mewn dulliau delfrydol ac i amserlen cynnar.

Gyda rhagor o adnoddau byddai modd cyflymu'r rhaglen ac o bosib cynnig ymyrraethau mwy dwys a chynhwysfawr ond bydd angen cyflwyno'r achos busnes i wneud hynny ar sail achos unigol.

**CYFNOD ADOLYGU**

Bwriedir monitro cynnydd y cynllun hwn drwy Grwp Swyddogion Ffordd Gwynedd a hefyd y Grwp Arweiniol o'r prosiect blaenoriaeth hwnnw. Byddwn hefyd yn adrodd fel bo'r angen i'r cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad adrannol ac i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi a Chabinet y Cyngor.

**Rhaglen Waith – Blwyddyn 1 (2024 – 2025)**

| Rhif Prosiect | Beth? | Pwy? | Pryd? |
|---|---|---|---|
| 1. | Datblygu'r Cynllun Llesiant i Staff gan dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Ebrill – Hydref, 2024 |
| 2. | Lawnsio Polisi Rheoli Absenoldeb y Cyngor yn cynnwys system electroneg i'r rheolwyr trwy hunain wasanaeth staff. | Rheolwr Adnoddau Dynol | |
| 3. | Cynnal Sioe Deithiol o amgylch y Cyngor i dargedu gweithwyr coler las e.e. depos a chartrefi preswyl. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | |
| 4. | Cynnal sesiwn strategol gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar gynnwys y cynllun | Pennaeth Cynorthwyol / Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref, 2024 |
| 5. | Ymgynghori gyda'r Fforwm Corfforaethol a chais iddynt gyflwyno a'i drafod ym mhob Fforwm Adrannol. | Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant. Arweinydd Tîm IG | Hydref 2024 |
| 6. | Cyflwyno'r Cynllun i gyfarfod o Gabinet y Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Tachwedd, 2024 |
| 7. | Llunio a gweithredu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda staff, ychwanegu'r ddogfen i'r fewnrwyd, sesiwn byw'r Prif Weithredwr, bwletin staff ayyb. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Rhagfyr/Ionawr 2025 |
| 8. | Cynnal Cyflwyniad o fewn y Rhwydwaith Rheolwyr ar y Cynllun. | Pennaeth Cynorthwyol / Rheolwyr Iechyd a Diogelwch a'r Arweinydd Tîm | Tachwedd 2024 |
| 9. | Ail gychwyn yr hyfforddiant I-Act i reolwyr presennol a rheolwyr yn cychwyn o fewn y Cyngor. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref/Tachwedd 2024 |
| 10. | Adnabod, codi ymwybyddiaeth a chynnal hyfforddiant i Hyrwyddwyr Llesiant o fewn Adrannau'r Cyngor gan 'Amser i Newid Cymru'. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Hydref 2024 |
| 11. | Creu rhaglen waith ar gyfer rôl a ffiniau Hyrwyddwyr Llesiant ar draws y Cyngor. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant Arweinydd Tîm IG | Tachwedd 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. | Adolygu Polisi Llesiant Meddyliol Cyngor Gwynedd a'i lansio | Arweinydd Tîm IG<br>Arweinydd Tîm I&D | Mawrth 2025 |
| 13. | Llunio rhaglen o weithgareddau a chymorth i holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys gwahoddiad i bartneriaethau allanol i roi cyflwyniadau, megis menopôs, polisi alcohol a chyffuriau, 'Mind Cymru' | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Mawrth 2025 |
| 14. | Datblygu cysylltiadau sydd yn gallu darparu cymorth i staff sef Iechyd Galwedigaethol a Medra. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Chwefror 2025 |
| 15. | Creu adroddiadau Penaethiaid Adran yn cynnwys gwybodaeth angenrheidiol er mwyn creu perchnogaeth a rhoi gwell data i reoli llesiant o fewn eu Hadrannau. | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant<br>Arweinydd Tîm IG | Ebrill 2025 |

# Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

## Cliciwch neu daro yma i deipio testun.

**Awdur:** Catrin Love (GC)

**Dyddiad:** 6/12/2024 12:00:00 AM

**Fersiwn:** Cynllun Llesiant 2024

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Beth yw amcan yr hyn sy'n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Hybu llesiant a chefnogaeth llesiant ar draws gweithlu y Cyngor

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Mae ymgynghoriad sylweddol wedi bod ar y cynllun, sydd wedi cynnwys y canlynol:

- Panel Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (aelodaeth o Aelodau Etholedig, a'r Undebau Llafur)
- Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, a Fforymau Adrannol ple fo cynrychiolaeth o'r gweithlu
- Tim Rheoli Corfforaethol
- Rhwydwaith Rheolwyr a Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu’r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Arolwg Llais Staff** | **Medi 2023** | **Data meintiol ac ansoddol** |
| **Data absenoldeb salwch corfforaethol** | **2023/24** | **Data meintiol** |
| **Data cenedlaethol ar faterion llesiant** | **2024** | **Ymarfer gorau diweddaraf ynghyd â gwybodaeth am effeithiolrwydd rhai ymyraethau** |
| **Data cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol a Medra** | **2024** | **Gwybodaeth am gyfraddau cyfeiriadau ac unrhyw negeseuon amlwg** |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | | |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim sylwadau | Dim effaith negyddol wedi ei ragweld nac wedi ei adnabod yn y broses ymgysylltu |

| | | |
|---|---|---|
| **Anabledd** | Gwella ymwybyddiaeth o faterion niwro-amrywiaeth o fewn y gweithlu | Cynnig gwell cefnogaeth i aelodau sydd wedi derbyn diagnosis. |
| **Rhyw** | Dim effaith negyddol wedi eu hadnabod na'u hamlygu yn y broses ymgysylltu | Dim effaith negyddol - cynnig cefnogaeth cyfartal |
| **Oedran** | Mae'r gwaith yma yn plethu i mewn i waith ehangach o ran llesiant cymdeithasol sydd wedi adnabod fod anghenion gwahanol garfannau staff yn gwahaniaethu | Rhwydwaith Undeb y dyfodol wedi ei sefydlu i staff ifanc allu cymdeithasu yn sgil sylwadau sydd wedi eu derbyn gan staff ifanc yn benodol |
| **Crefydd a Chred** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Ail-bennu rhywedd** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Priodas a Phartneriaetgh Sifil** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim sylwadau | Mae gennym bolisiau i gyfarch cefnogi beichiogrwydd a mamolaeth a ni ragwelir unrhyw effaith negyddol gan y Cynllun hwn |
| **Iaith Gymraeg** | Dim sylwadau wedi eu gwneud | Mae'r gynhaliaeth llesiant ar gael yn gwbl ddwy-ieithog ag eithrio un elfen, sef y Meddyg Iechyd Galwedigaethol, ond mae cynllun olyniaeth mewn lle i fod yn cyfarch hyn wrth symud ymlaen. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Diffyg mynediad gan staff rheng flaen sydd gan ddim cyfrifon digidol | Diffyg gwybodaeth cyfartal i bawb o'r gweithlu |

| | | |
|---|---|---|
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Hawliau Dynol** | Dim sylwadau | Dim effaith |
| **Arall** | Dim sylwadau | Dim effaith |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Fel rhan o'r broses ymgynghorol, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi gofyn am ddata ar effaith gweithio'n hybrid ar lesiant yn genedlaethol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar hyn.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Dim wedi eu hadnabod

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r cynnig yn edrych i leihau y bwlch rhwng y gweithlu sydd gan fynediad i gyfrifon digidol a'r staff hynny sydd gan ddim.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Mae'r cynnig yn edrych i leihau y bwlch rhwng y gweithlu sydd gan fynediad i gyfrifon digidol a'r staff hynny sydd gan ddim.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae'r gefnogaeth ar gael i staff yn gwbl ddwy-ieithog ar wahan i'r Meddyg Iechyd Galwedigaethol ond mae cynllun tymor canolig mewn lle i gyfarch yn elfen hon.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Mae gofynion y Ddeddf wedi eu plethu i bob elfen o'r Cynllun

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na fydd

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal? (Crynodeb o'r effaith sydd wedi ei adnabod uchod)**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Dim effaith negyddol wedi ei adnabod

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Dim effaith negyddol wedi ei adnabod

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim yn berthnasol

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Dim yn berthnasol

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Cynllun cyfathrebu manwl i gefnogi'r Cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd pob carfan o'r gweithlu

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Dim camau pellach wedi eu hadnabod ond mae prosiectau eraill ar y gweill (ddim yn gysylltiedig a'r Cynllun hwn) fydd yn hwyluso y gwaith o ran asesu angen mynediad digidol y gweithlu cyfan.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai’n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rydym yn cymryd pob cyfle i ddylanwadu ar asiantaethau partneriaethol o ran defnydd y Gymraeg.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi’i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi’n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu.  Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn.  Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu.  I weld canllawiau ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu cynigion llesiant gyda staff rheng flaen | 2025 | Tros y flwyddyn nesaf ac yn barhaus wedi hynny | Catrin Love | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
| --- | --- | --- | --- |
| Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Yn chwarterol | Catrin Love | Na |
| Grwp Swyddogion Ffordd Gwynedd | Yn fisol | Geraint Owen | Na |

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Cwynion a Gwella Gwasanaeth Chwarter 1-2 2024/25 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Llio E. Owen |
| **Swyddog perthnasol:** | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Rhagfyr 2024 |

## 1. Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 30 Medi, 2024 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir

Cyflwynwyd "Trefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth" y Cyngor yn 2015, wedi ei llunio dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac felly'n gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill.

Mabwysiadwyd y drefn gan y Cabinet gyda'r amcan o ddod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses yn ogystal a chaniatáu i swyddogion ymdrin yn gyflymach â chwynion.

Symudwyd perchnogaeth ymateb i gwynion i'r Adrannau unigol, ond gyda swyddogaeth cydgordio a chynnig arweiniad yn parhau dan arweiniad y Swyddog Monitro a gyda chymorth y Swyddog Gwella Gwasanaethau.

Diweddarwyd y Polisi Pryderon a Chwynion ar 1 Ebrill 2021, a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am weithredu'r drefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol dan ofal y Swyddog Gwella Gwasanaeth o fewn y tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

Dylid nodi nad yw'r drefn hon yn berthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod trefn statudol ar wahân ar eu cyfer hwy. Mae'r ysgolion hefyd yn gweithredu eu trefniadau cwynion eu hunain.

### 3.2 Ymateb i Gwynion - Eglurhad o'r termau a ddefnyddir

#### 3.2.1 Datrys Cŵyn Anffurfiol

Achwynydd yn cysylltu'n anffurfiol gyda'r Swyddog Gwella Gwasanaeth neu'r Gwasanaeth perthnasol i ddatrys y pryder.

#### 3.2.2 Ymchwiliad i Gŵyn Ffurfiol

Achwynydd yn cyflwyno cŵyn ffurfiol drwy'r drefn gwynion. Cynhelir ymchwiliad gan swyddog o fewn yr Adran berthnasol, sydd ar lefel ddigon uchel ac sy'n annibynnol o ffynhonnell y gŵyn.

#### 3.2.3 Cŵyn i'r Ombwdsmon

Gall achwynydd fynd â'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor.

Wedi edrych ar y gŵyn, gall yr Ombwdsmon benderfynu ar un o'r canlynol:

- *Dim Ymchwiliad* – ble mae'r Ombwdsmon yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater, ac yn teimlo nad oes angen ymchwilio ymhellach. Gall hefyd fod yn fater sydd tu hwnt i'r awdurdodaeth.
- *Cynamserol* - os yw'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r awdurdod wedi cael cyfle i ystyried y mater.
- *Cynnal ymchwiliad pellach* - ble mae'r Ombwdsmon yn teimlo bod angen ymchwilio ymhellach, i asesu sut mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater.
- *Setliad* – ble mae cytundeb gyda'r achwynydd, ac maent yn derbyn y datrysiad

## 4. Amlder yr Adroddiad

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol am 2023 – 24 i'r Cabinet fis Mai 2024. Yn anffodus ni chafwyd Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon tan 9fed o Fedi 2024 felly nid oedd yn bosib ei gynnwys efo'r Adroddiad Blynyddol am y cyfnod. Oherwydd hynny rydym nawr yn cyflwyno'r Llythyr Blynyddol efo'r Adroddiad yma.

Mae data 'byw' ar gael i Benaethiaid Adran, Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Cabinet unrhyw adeg ar ofyn.

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r datblygiadau ar gyfer y cyfnod 01/04/2024 – 30/09/2024, gan ganolbwyntio ar Gwynion Ffurfiol Dilys yn ogystal a chwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon.

Nodir isod y ffigurau hyd yma eleni -


- 24 Cwyn Ffurfiol Dilys rhwng 01/04/24 a 30/09/24
- 19 Cwyn Ombwdsmon rhwng 01/04/24 a 30/09/24

(13 Dim Ymchwiliad; 4 Dim Ymchwiliad – Cynamserol; 2 - Ymholiad)


## 5. Data Meintiol

### 5.1 Nifer Cwynion:


**2023/24 Chwarter 1-2**




**2024/25 Chwarter 1-2**





### 5.2 Nifer Cwynion: Sefyllfa Dros Gyfnod ers 2020-21





**Data Chw1 a Chw2 yn unig ar gyfer 2024/25*

### 5.3 Amser Ymateb Dros Gyfnod ers 2020-21





## 6. Dadansoddiad o'r Cwynion

### Mesul Categori Blwyddyn 2023/24 Chwarter 1 – 2




### Mesul Categori Blwyddyn 2024/25 Chwarter 1 – 2




**Dadansoddiad fesul Adran – Gweler Atodiad 1**

Gellir darparu gwybodaeth fanwl am Gwynion penodol pe dymunir.

## 7. Prif Negeseuon

- Gwelir fod y nifer o Gwynion Ffurfiol a'r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi gostwng yn Chwarter 1 a 2 eleni o'i gymharu ar un cyfnod y llynedd.
- Mae'r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod nifer Cwynion Ffurfiol wedi gostwng yn raddol o 2018/19 tan 2021/22 pan fu cynnydd sylweddol, ond mae pethau i weld wedi sefydlogi rhywfaint yn ôl hyd yma eleni.
- Gwelwyd newid mewn diwylliant gyda'r mwyafrif o Wasanaethau yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif ac adeiladol er mwyn dysgu ohonynt, gyda'r amser ymateb yn gostwng yn ôl yn raddol.

## 8 Camau Nesaf

Ein bwriad yw parhau i weithio gyda Timau Rheoli Adrannol a Swyddogion o fewn y Gwasanaethau i sicrhau dealltwriaeth o'r drefn Gwynion a chael ymrwymiad i'w gweithredu. Yn sgil hyn, gobeithiwn leihau'r amser ymateb i Gwynion, a pharhau i Wella Gwasanaethau.

Fel rhan o ffrwd gwaith Cyswllt a'r cwsmer yng Nghynllun Ffordd Gwynedd, mae gwaith ar ddatblygu Siarter Cwsmer newydd yn digwydd. Pan fydd y siarter newydd yn ei lle, bydd canllawiau wedi eu paratoi i staff fydd yn cynnwys gwybodaeth am gyfnodau ymateb gwahanol:- ymateb i Aelodau, ymateb i Ohebiaeth Cyffredinol, ac ymateb i Gwynion. Y gobaith yw y bydd hyn yn arbed nifer o gwynion am Ddiffyg Ymateb/Gweithredu i'r dyfodol, gan y bydd y staff wedi cael eu arfogi efo'r wybodaeth sydd eu angen arnynt i gadw at y gofynion ymateb.

Mae'r Wal Lwyddiannau yn dal i dyfu, a da iawn ydi gweld fod nifer helaeth o Ddiolchiadau/Canmoliaethau wedi'u derbyn gan y Cyhoedd, gan Aelodau a gan Staff. Erbyn hyn mae 1338 o sylwadau wedi cael ei derbyn ar gyfer y Wal, ers iddi gael ei sefydlu yn 2015 Mae gweld gwerthfawrogiad tuag at eu gwaith, yn gymorth mawr i godi morâl staff, yn enwedig y rhai sydd ar y rheng flaen.

## 9 Sylwadau y Swyddogion Statudol

### Y Prif Swyddog Cyllid:

"Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

### Y Swyddog Monitro:

Mae'n rhan o'r drefn gwynion fod y Cabinet yn derbyn adroddiad ar drefniadau cwynion y Cyngor o safbwynt cynnal gwasanaethau o ansawdd. Nodaf fod y Pwyllgor Lywodraethu ac Archwilio wedi ystyried effeithlonrwydd y trefniadau yn unol a'u dyletswydd newydd.

**Rhestr Atodiadau**

Atodiad 1 Tabl Cwynion

**ATODIAD 1**

| | ADRAN | GWASANAETH | CYFNOD | CATEGORI Y GWYN | NATUR Y GWYN / RHWYSTR | YMATEB I'R CWYNYDD | GWERSI A DDYSGWYD/ CAMAU GWELLA GWASANAETH | SYLWADAU Plîs nodwch fod y Cwynion wedi eu nodi o dan "Gategori" nid o reidrwydd am fod eu natur i gyd yn hollol yr un fath |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Tai & Eiddo | Tai | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Anhapus efo Penderfyniad | Ombwdsmon wedi anfon cwyn cynamserol atynt ymlaen at y Cyngor am sylw. Cwsmer yn cwyno ei bod hi wedi cael ei rhoi mewn lle sydd yn anaddas iddi hi a'i phlentyn (ma hi ar y llawr uchaf efo plentyn ac yn feichiog). | Cwyn yn dal ar agor. | Cwyn yn dal ar agor. | 1 |
| 2 | Tai ac Eiddo | Tai | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg Ymateb/gweithredu | Cwsmer yn cwyno am nad yw'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan y Gwasanaeth Digartrefedd. Roedd cwsmeriaid wedi eu lleoli yn eu cartref ac yn gwrthod gadael. Roeddent wedi cysylltu i ofyn am gymorth y Gwasanaeth, ond doedd dim cymorth amserol i'w weld ar gael. | Rheolwr wedi ffonio'r cwsmer i egluro'r drefn etc. Cwsmer wedi gwerthfawrogi'r cyswllt ganddi. Yn anffodus cwsmer wedi gorfod cysylltu i holi am ymateb gan nad oedd wedi cael un yn dilyn y sgwrs ffôn. Rheolwr wedi ymateb gan ymddiheuro am y diffyg taliad amserol. | Pwysigrwydd gwneud taliadau cyn gynted ag y bo modd. A pheidio gadael cwsmer mewn sefyllfa lle maent yn gorfod holi am y taliad. | 1 |
| 3 | Tai ac Eiddo | Eiddo | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Iaith a Chydraddoldeb | Cwsmer yn cwyno iddi gael ei thrin yn wahanol ac annheg oherwydd ei anableddau. Roedd yn ymweld a chleient mewn Hostel yn yr ardal ar y pryd. Roedd y cleient hefyd wedi dioddef yr un problemau sef methu cael mynediad i'r Hostel mewn cadair olwyn etc. Y cleient ddim yn awyddus i gwyno ei hun. Cwsmer wedi trafod y mater yn y Grwp Cydraddoldeb yn barod. Wedi nodi nad yw hyn ddigon da nad oes gwelliannau wedi cael eu gwneud er fod y mater wedi cael ei adrodd arno sawl gwaith. | Pennaeth Cynorthwyol wedi cydnabod derbyn y gwyn ac wedi nodi fod ymchwiliad ar wahân ar y gweill felly yn methu rhoi ymateb llawn i'r cwsmer ar hyn o bryd yn anffodus. Fodd bynnag yn ei sicrhau y byddant yn adrodd yn ôl iddi pan fydd yr ymchwiliad wedi darfod. Swyddog Cydraddoldeb yn y lwp am y mater yn ogystal. Cwyn dal ar agor. | Cwyn yn dal ar agor ar hyn o bryd gan nad oes diweddariad wedi ei anfon i'r cwsmer. | 1 |

**ATODIAD 1**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Cyllid | Refeniw | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer wedi cwyno am ddiffyg ymateb a chamgymeriadau gan y Gwasanaeth Refeniw. Roedd yn nodi fod manylion wedi eu rhoi iddynt ond nad oeddent wedi gweithredu arnynt. Fod y Rheolwr wedi ymddiheuro am y problemau cyntaf ac wedi nodi byddai'r mater yn cael ei ddatrys ond fod problem bellach wedi codi rwan am yr un peth. | Pennaeth y Gwasanaeth wedi trefnu i ymateb i'r cwsmer. Y Pennaeth wedi ymddiheuro am y problemau oedd wedi digwydd. Cwsmer wedi cysylltu nol efo'r Pennaeth ac yntau wedi ymateb drachefn. | Pwysigrwydd sicrhau fod data yn gyfredol ar yr holl systemau a fod swyddogion yn ymateb yn amserol i gwsmeriaid. Hefyd cofio bob tro ymddiheuro i gwsmer os oes lle i wneud hynny a pheidio bod yn amddiffynnol. | 1 |
| 5 | Cyllid | Refeniw | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg ymateb/gweithredu | Cwsmer wedi anfon cwyn i'r blwch yn nodi fod yr Uned Trethi heb weithredu ar ei gais parthed Premiwm Treth Cyngor. | Rheolwr wedi ymateb yn syth i'r cwsmer gan ymddiheuro am yr oedi ac yn egluro'r sefyllfa bresennol a chadarnhau fod y newidiadau wedi eu gwneud. | Cofio pwysigrwydd ymateb yn brydlon i gwsmer, boed yn ymholiad neu gŵyn. | 1 |
| 6 | Gwasanaethau Corfforaethol | Cofrestru | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer yn cwyno am gamgymeriad gan Gofrestrydd wrth gofrestru manylion eu plentyn. Wedi nodi Benyw ar y tystysgrif yn lle Gwryw. Cwsmer yn cyfaddef nad oedd hi a'i phartner wedi sylwi ar hyn pan ddaru nhw edrych ar y tystysgrif i weld oedd pethau yn iawn arni, ond wedi sylwi pan aethant adra. Roedd wedi ffonio i mewn i nodi'r camgymeriad ac wedi cael gwybod byddai rhaid iddi dalu i'w newid. Nid oedd yn teimlo fod hyn yn deg o gwbl gan nad hi oedd wedi gwneud y camgymeriad medda hi. | Arweinydd Tim Y Gwasanaeth wedi ymddiheuro i'r cwsmer am y camgymeriad ac yn trefnu iddi gael tystysgrif newydd wedi iddi drefnu hynny drwy'r Swyddfa Gofrestru etc. Ni fydd angen i'r cwsmer dalu'r ffi. | Pwysigrwydd sicrhau cael manylion yn gywir bob tro ar ddogfennaeth o'r fath. | 1 |
| 7 | Gwasanaethau Corfforaethol | Cefnogol | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer oedd yn gyn aelod o staff wedi cwyno am gael bil gan y Cyngor am bron i £9,000 heb ddim eglurhad fod ei gyflog wedi cael ei ordalu am 3 mis wedi iddo adael. | Pennaeth y Gwasanaeth wedi ymateb i'r cwsmer gan ymddiheuro am y sefyllfa. Egluro beth oedd wedi digwydd, ac wedi ymddiheuro ymhellach am y diffyg eglurhad blaenorol am y sefyllfa. Fe ddylid bod wedi cysylltu efo'r cwsmer i nodi beth oedd wedi digwydd. | Cofio fod angen rhoi gwybodaeth glir i staff os oes rhywbeth tebyg i hyn yn digwydd rhywdro eto. Ni ddylid aros i'r aelod staff gysylltu i holi. | 1 |
| 8 | Amgylchedd | Rheolaeth Adeiladu | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg ymateb/gweithredu | Cwsmer yn cwyno am nad yw wedi cael diweddariad gan y Gwasanaeth nac ymatebion i'w | Pennaeth Cynorthwyol wedi anfon ymateb llawn i'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am yr | Cofio cadw at unrhyw addewidion a wneir i gwsmer o ran eu cadw yn y lŵp am faterion maent wedi eu codi efo'r Gwasanaeth yn flaenorol. | 2 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ebyst diweddar. Y mater yma wedi bod yn gŵyn ganddo yn flaenorol ac fe nodwyd pryd hynny byddai'r Gwasanaeth yn trefnu i anfon diweddariadau iddo, ond tydi hyn heb ddigwydd. | oediad. Rhoddwyd diweddariad i'r cwsmer ar y sefyllfa, ond eglurwyd nad oedd y manylion yn rhywbeth y gellir eu rhannu yn anffodus oherwydd diogelu data ond ei sicrhau fod cais mewn lle a bydd yn derbyn sylw buan. | | |
| 9 | Amgylchedd | Cynllunio | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg ymateb/gweithredu | Cwsmer yn cwyno am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth, dros 5 mis wedi pasio ac yntau heb gael unrhyw ymateb ganddynt. | Aelod o'r Tim wedi cydnabod y gŵyn, wedi ymddiheuro i'r cwsmer am y diffyg ymateb amserol, ac wedi egluro beth sydd yn digwydd efo'r achos. | Pob amser ceisio cydnabod/ymateb i gwsmer cyn gynted ag y bo modd ac yn sicr yn unol ac amserlen ymateb i ohebiaeth y Cyngor. | 7 |
| 10 | Amgylchedd | Gwastraff | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg Ymateb/Gweithredu | Cwsmer yn cwyno ei bod hi dros 50 diwrnod ers iddi archebu cyfarpar ailgylchu. Mae wedi ffonio sawl gwaith ond pan mae hi yn gadael neges, does neb yn dod nol ati. Er fod pwy bynnag sydd ar y ffon wedi nodi y byddai rhywun yn ymateb o fewn 48 awr. | Swyddog wedi cysylltu ar cwsmer ar y ffon a threfnu i ddanfon y cyfarpar iddi. | Mae'n holl bwysig bod yn onest efo cwsmeriaid o ran amserlen ymateb. Holl bwysig rhoi diweddariad/eglurhad iddynt os nad oes modd ymateb yn llawn neu ddarparu cyfarpar o fewn y cyfyngiad amser a nodir. | 1 |
| 11 | Amgylchedd | Gwastraff | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer yn cwyno am fethiannau casglu gwastraff masnachol cyson. Heb gael y cyfarpar cywir ac wedi dioddef nifer o fethiannau ers iddi drio cael y Gwasanaeth. Nodi fod busnes drws nesaf yn rhoi eu biniau wrth ochr eu rhai nhw ond doedd ganddynt ddim cytundeb. Felly bin y cwmni arall oedd yn cael ei gasglu ac un y cwsmer yn cael ei adael sawl tro. | Cwsmer wedi derbyn ateb gan y Tim Gwastraff Masnachol ond wedi nodi ei bod yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol erbyn hyn. Anfonwyd y gŵyn i sylw'r Pennaeth Cynorthwyol am sylw. | Mae'n bwysig fod y Gwasanaethau yn deall ac yn derbyn fod Cwynion sydd yn cyrraedd y Gwasanaeth yn uniongyrchol yn Gwynion hefyd. Does dim rhaid i gwyn fod wedi cyrraedd y Gwasanaeth drwy'r Blwch Cwynion. Mae'n bwysig bod yn agored i Gwynion a pheidio bod yn amddiffynnol mewn achosion o'r fath. | 1 |
| 12 | Amgylchedd | Cyllid Amgylchedd | 01/04/24 – 30/09/24 | Diffyg Ymateb/gweithredu | Cwsmer yn cwyno am ddiffyg ymateb i'w ohebiaeth/cyswllt ffôn blaenorol i drafod bil. Rŵan mae o wedi cael llythyr rhybudd terfynol a tydi o ddim yn hapus. Roedd wedi gofyn i'r cyfanswm gael ei rannu rhyngddo fo a'r perchennog newydd. | Rheolwr y Gwasanaeth wedi ymchwilio ac wedi ymateb i'r cwsmer gan ymddiheuro am y sefyllfa ac egluro fod y bil wedi ei newid i fod yn gywir rŵan. | Pwysigrwydd fod nodiadau, gwybodaeth ar ffeiliau yn gyfredol a fod y Gwasanaeth yn cydnabod cyswllt cwsmer yn amserol bob amser. | 1 |
| 13 | Addysg | Addysg | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Diffyg ymateb/gweithredu | Cwsmer wedi cwyno am ddiffyg ymateb gan Swyddogion o'r Gwasanaeth i'w gohebiaeth ar faterion pwysig yn ymwneud a Diogelu Plant. | Cwyn dal ar agor | Cwyn yn dal ar agor. | 1 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Addysg | Addysg | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer yn cwyno am na chafodd wybod am adroddiad/asesiad oedd wedi cael ei wneud ar ei ferch. Nodi nad oedd y Gwasanaeth wedi datgan hyn pan yn trafod efo fo a'i bartner. Wedyn daeth yr adroddiad i'w sylw. Hefyd cwyno am elfennau diogelu data. A dweud ei fod am gymryd rheini i fyny efo'r Comisiynydd. | Pennaeth Cynorthwyol wedi ei benodi i ymchwilio i'r achos ond ar gais y cwsmer, trefnwyd i Bennaeth Cynorthwyol arall ddilyn y mater i fyny ar ran y Gwasanaeth. Cwyn felly yn dal ar agor. | Dda gweld y Gwasanaeth yn bod yn agored i gais y cwsmer, ac o dderbyn ei bryderon maent wedi trefnu i gael ymchwilydd gwahanol i edrych fewn ac ymateb i'w gŵyn. | 1 |
| 15 | Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | Bwrdeistrefol | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer yn cwyno fod gweithwyr wedi dod i'w chartref i osod polyn lamp newydd ar ei thir, heb ei chaniatâd. Doedd neb wedi cysylltu efo hi ymlaen llaw ar y mater. Staff y Cyngor yn gweithio i Gwmni Ynni o ran y gwaith yma. Cwsmer eisiau ymddiheuriad a hefyd eisiau gweld Wayleave form etc | Rheolwr y Gwasanaeth wedi anfon nodyn at y cwsmer yn ymddiheuro am y sefyllfa ac yn nodi y bydd yn mynd nol ati wedi iddo ddarfod ei ymchwiliad. O ddilyniant i sgwrs fewnol, Swyddog o Cyfreithiol wedi anfon ymateb pellach i'r cwsmer yn egluro'r sefyllfa a chynnig sgwrs os oedd hi angen unai efo hi, neu ei annog i drafod efo ei Chyfreithiwr ei hun. | Mae'n dda gweld fod y Rheolwr perthnasol eisiau sicrhau pwysigrwydd fod prosesau cywir yn cael eu dilyn, a'i fod wedi tynnu Cyfreithiol i mewn i'r gŵyn iddynt fedru rhoi'r ffeithiau cywir i'r cwsmer ar y sefyllfa. | 1 |
| 16 | Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 01/04/2024 – 30/09/2024 | Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor | Cwsmer wedi cysylltu yn cwyno am yr ymateb gafodd gan y Gwasanaeth, di enw, ddim ar bapur pennawd etc. Nodi nad oedd yn teimlo fod ei chwyn wedi cael sylw iawn, gan iddi gael ymateb o fewn ychydig ddyddiau o wneud ei chwyn. Doedd hi ddim yn teimlo y byddent wedi cael ymatebion mor sydyn a hynny. | Y mater yn wreiddiol wedi derbyn sylw yn Gwasanaeth ond yr SGG wedi nodi pryd hynny nad oedd yn meddwl fod anfon ymateb, di enw, oedd ddim hyd yn oed ar bapur pennawd y Gwasanaeth yn dderbyniol. Tynnwyd y mater i sylw'r Swyddog Monitro a gyfeiriodd y ddau Wasanaeth i Ganllawiau'r Ombwdsmon ar ymateb i gwynion a phriodoli ymatebion. Gofynnwyd i'r Pennaeth Gwasanaeth ymyrryd yn y sefyllfa. Cwyn dal ar agor. | Cwyn yn dal ar agor. | 2 |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
01656 641150
Cyfathrebu
@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Medi 2024

Cyngh. Dyfrig L. Siencyn
Cyngor Gwynedd
Trwy E-bost yn unig: cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

**Llythyrau Blynyddol 2023/24**

Annwyl Cynghorydd Siencyn

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rwyf hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar fy liwt fy hun.

**Diben y llythyr**

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi diweddariad ar waith fy swyddfa, rhannu materion allweddol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol ar gyfer eich sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Trosolwg o 2023/24**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Pennod Newydd yn Datblygu" - a daw ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod o dan y chwyddwydr, ac o dan bwysau sylweddol. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynnydd o 17% mewn cysylltiadau cyffredinol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda bron i 10,000 o ymholiadau a chwynion wedi'u derbyn. Mae ein llwyth achosion wedi cynyddu yn sylweddol - gan 37% - ers 2019.

Yn 2023/24, gwnaethom ystyried a chau mwy o ymholiadau a chwynion nag yr ydym erioed wedi'u gwneud o'r blaen, a gwnaethom leihau'r gost gyfartalog ar gyfer pob achos ac ymchwiliad. Dechreuom y flwyddyn gyda ffocws ar leihau ein hachosion sy'n heneiddio, sef y rhai dros 12 mis oed, o 50% erbyn diwedd y flwyddyn. Yr

achosion hyn yn aml yw'r rhai mwyaf cymhleth a gofidus i'r bobl sy'n cwyno. Mae'n bleser mawr gennyf ddweud ein bod wedi rhagori ar y targed hwn, gan leihau ein hymchwiliadau hŷn o dros 70%. Rydym bellach ar y trywydd cywir i gyflawni ein hamcan i gwblhau ymchwiliadau i gwynion o fewn 12 mis.

## Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydymffurfiaeth ag Argymhellion

Gwnaed cyfanswm o 1,108 o gwynion am awdurdodau lleol i ni'r llynedd - tua'r un nifer â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 14% o gwynion awdurdodau lleol - cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Cawsom 38 o gwynion am Cyngor Gwynedd yn 2023/24 a gwnaethom gau 39. Roedd cyfradd ymyrryd Cyngor Gwynedd yn 6%. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gwynion am eich sefydliad yn yr atodiadau.

Gwnaethom 12 argymhelliad i'ch cyngor yn ystod y flwyddyn. I sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn sbarduno gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad. Yn 2023/24, roedd angen cydymffurfio â 19 argymhelliad a chydymffurfiwyd â 74% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Cydymffurfiwyd â'r gweddill, ond y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt neu maent yn parhau i fod heb eu cyflawni yn ystod 9 Ebrill 2024

Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda'r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

## Ein gwaith Cod Ymddygiad

Fy rôl yw ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad. Pan fydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn ar fater sy'n ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio er budd y cyhoedd, caiff yr achosion hyn eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau lleol neu'r Panel Dyfarnu Cymru i'w hystyried.

Yn 2023/24, cawsom 16% yn fwy o gwynion y Cod Ymddygiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Gwnaeth fy swyddfa 21 o atgyfeiriadau - at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, cynnydd o 12 y flwyddyn flaenorol.

Rwy'n ddiolchgar i'ch Swyddog Monitro am eu hymgysylltiad cadarnhaol gyda'm swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar faterion sy'n ymwneud â'r fframwaith safonau moesegol, gan gynnwys Gweithdrefnau Datrys Lleol.

## Adolygiad Annibynnol

Fel y gwyddoch, deuthum yn ymwybodol o sylwadau amhriodol, o natur wleidyddol, a wnaed gan aelod o'm staff ar gyfryngau cymdeithasol. Adroddwyd y sylwadau hyn yn eang yn y cyfryngau. Ataliwyd yr aelod o staff dan sylw o'i gwaith, ac wedi hynny, ymddiswyddodd. Fodd bynnag, ysgogodd y sylwadau gwestiynau am waith fy swyddfa ar achosion Cod Ymddygiad Cynghorwyr.

Oherwydd difrifoldeb y mater, comisiynais Dr Melissa McCullough i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad, ac rwyf wedi cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl llawn ar gyfer yr adolygiad hwnnw. Rwyf i a'm staff yn ymgysylltu yn agos â'r Grŵp Swyddogion Monitro a'r Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad terfynol Dr McCullough ar ôl iddi gwblhau'r adolygiad a byddwn yn ei rannu â Phwyllgor Cyllid y Senedd yr Hydref hwn.

## Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus y llynedd a buom yn gweithio ar ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys pedwar awdurdod lleol ac yn ystyried asesiadau o anghenion gofalwyr. Rwy'n ddiolchgar i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt am eu cydweithrediad a'u gonestrwydd drwy gydol y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at rannu ein hadroddiad terfynol yr hydref hwn. Bydd hwn yn gwneud argymhellion i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt a bydd yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru i wneud gwelliannau tebyg.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar safonau ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac erbyn hyn mae gennym 56 o gyrff cyhoeddus yn dilyn ein polisi enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn cyfrif am tua 85% o'r cwynion a gawn. Rydym wedi parhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion, a gasglir gan gyrff cyhoeddus, gan gyhoeddi data ddwywaith y flwyddyn.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am drydedd flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, aeth 8% o'r cwynion a wnaed i Cyngor Gwynedd ymlaen i gael eu cyfeirio at OGCC.

## Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd


Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ynghyd â'ch data eich hunain, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Hoffwn ddiolch i chi, a’ch swyddogion, am barhau i fod yn agored, ac am ymgysylltu, gyda fy swyddfa. Mae ein gwybodaeth yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried mwy o gwynion nag erioed o’r blaen ac yn defnyddio gwybodaeth o gwynion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Yn gywir,



**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

cc.Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.
Trwy E-bost yn unig: dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

**Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cywnion a Gafwyd | Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 15 | 0.22 |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 59 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 56 | 0.32 |
| Cyngor Caerdydd* | 149 | 0.41 |
| Cyngor Sir Gâr | 69 | 0.37 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 32 | 0.45 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 36 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ddinbych** | 31 | 0.32 |
| Cyngor Sir y Fflint | 51 | 0.33 |
| Cyngor Gwynedd | 38 | 0.32 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 38 | 0.55 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 12 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 29 | 0.31 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 35 | 0.25 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 52 | 0.33 |
| Cyngor Sir Penfro | 40 | 0.32 |
| Cyngor Sir Powys | 54 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 64 | 0.27 |
| Cyngor Abertawe | 81 | 0.34 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 14 | 0.15 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 77 | 0.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 0.56 |
| **Cyfanswm** | **1108** | **0.36** |

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Gwynedd** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 1 | 3% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 3 | 8% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 0 | 0% |
| Ymdrin â Chwynion | 7 | 18% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 1 | 3% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 7 | 18% |
| Cyllid a Threthiant | 8 | 21% |
| Tai | 5 | 13% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 4 | 11% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 5% |
| Amrywiol Eraill | 0 | 0% |
| Cyfanswm | **38** | |

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Cyngor Gwynedd** | | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 9 | 23% |
| Cynamserol | 13 | 33% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 11 | 28% |
| Datrys yn Gynnar/ setliad gwirfoddol* | 5 | 13% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill - Heb eu Cadarnhau | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill Wedi'u Cadarnhau | 1 | 3% |
| Adroddiadau Diddordeb Cyhoeddus* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **39** | |

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8 | 59 | 14% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 3 | 48 | 6% |
| Cyngor Caerdydd | 28 | 144 | 19% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 0 | 3 | 0% |
| Cyngor Sir Gâr | 8 | 60 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 7 | 32 | 22% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 0 | 37 | 0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 2 | 32 | 6% |
| Cyngor Sir Ddinbych - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru | 0 | 1 | 0% |
| Cyngor Sir y Fflint | 8 | 57 | 14% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 39 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 10 | 41 | 24% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 3 | 14 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 3 | 32 | 9% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 34 | 15% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 5 | 51 | 10% |
| Cyngor Sir Penfro | 7 | 38 | 18% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 53 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 11 | 63 | 17% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 77 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 14 | 14% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 15 | 71 | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 79 | 9% |
| **Cyfanswm** | **158** | **1095** | **14%** |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | | Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| Ymchwiliadau | **Penderfyniad i beidio ag ymchwilio** | 5 |
| | **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 0 |
| | **Dim tystiolaeth o dorri'r cod** | 0 |
| | **Dim angen gweithredu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Panel Dyfarnu** | 0 |
| | **Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** | 0 |
| | **Cyfanswm** | **5** |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Dinas Bangor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bethesda | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Caernarfon (Tref Frenhinol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Corris | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Tref Ffestiniog | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Cyngor Cymuned Llanbedrog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Penrhyndeudraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Porthmadog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Tywyn | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a gafodd OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a gafwyd, a pha gyfran o'r cwynion a gafwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2023/24. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.